Llywodraeth Cymru
Welsh Government

WG 55409

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Dileu elw o ofal plant

Gweithredu Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025:

Dileu elw o ofal plant – Symud gofal cymdeithasol plant i fodel nid-er-elw

10 Tachwedd 2026

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL (h) Hawlfraint y Goron 2026 ISBN Digidol **978-1-80853-689-2**

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gynigion i gefnogi'r broses o roi'r cynllun i ddileu elw o ofal plant yng Nghymru ar waith. Roedd yr ymgynghoriad hwnnw yn ceisio barn ar gynigion i wneud y canlynol:

- cyfyngu ar unrhyw ymgais i ehangu ymhellach y gwasanaethau er-elw sy'n bodoli eisoes ar gyfer plant drwy eu hatal rhag ychwanegu gwelyau newydd mewn cartrefi plant er-elw ac atal darparwyr gwasanaethau maethu er-elw rhag cymeradwyo gofalwyr maeth newydd;
- galluogi parhad cymeradwyaethau gofalwyr maeth drwy ganiatáu, o dan amgylchiadau cyfyngedig ac wedi'u diffinio'n glir, i gymeradwyaethau gofalwyr maeth drosglwyddo pan fo gwasanaeth maethu er-elw yn ailsefydlu fel gwasanaeth maethu nid-er-elw

Camau i'w Cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

Yr Is-adran Galluogi
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: dileuelw@llyw.cymru

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg: Moving children's social care to a not-for-profit model | GOV.WALES

Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r dogfennau ymgynghori: Symud gofal cymdeithasol plant i fodel nid-er-elw | LLYW.CYMRU

Cynnwys

Cefndir 4

Gweithredu 4

Yr ymgynghoriad 5

Ymateb i'r ymgynghoriad 5

Cwestiynau ac ymateb Llywodraeth Cymru 7

Y camau nesaf 46

Atodiad A: Rhestr o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad 48

Cefndir

Ar 24 Mawrth 2025, daeth Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 ('Deddf 2025') yn gyfraith gwlad yng Nghymru. Mae Deddf 2025 yn cynnwys darpariaethau sydd â'r bwriad o gyfyngu ar allu darparwyr gwasanaethau cartrefi plant, gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau maethu i dynnu elw. Gelwir y rhain ar y cyd yn 'wasanaethau plant o dan gyfyngiad'.

Mae Deddf 2025 yn nodi cyfres o drefniadau a ddechreuodd ddod i rym o 1 Ebrill 2026, a fydd yn y pen draw yn cyfyngu ar ddarparu gwasanaethau plant o dan gyfyngiad (ac eithrio lle cânt eu darparu gan awdurdodau lleol) i endidau 'nid-er-elw' sydd wedi'u cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru ('AGC).

Mae gwefan Cyfraith Cymru yn rhoi trosolwg o Ddeddf 2025 a'i datblygiad. Mae hyn yn cynnwys dolenni i'r ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth sylfaenol, a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2022, a Memorandwm Esboniadol sy'n rhoi esboniad manwl o'r newidiadau deddfwriaethol a wnaed gan Ddeddf 2025, ynghyd ag asesiad o'r effeithiau rheoleiddiol a'r effeithiau eraill a nodwyd.

O 1 Ebrill 2030, y bwriad yw mai dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y bydd plant yn cael eu lleoli gyda darparwyr er-elw, a hynny'n amodol ar gymeradwyaeth y Gweinidog.

Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal yng Nghymru, gan gynnwys cartrefi plant, llety diogel a gwasanaethau maethu.

Diwygiwyd Deddf 2016 gan Ddeddf 2025, a gyflwynodd nifer o fesurau i gefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddileu elw pan yn gofalu am blant sy'n derbyn gofal. Fel rhan o'r diwygiadau hynny, mewnosododd Deddf 2025 Atodlen 1A yn Neddf 2016. Mae paragraff 3(1) o Atodlen 1A yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i osod cyfyngiadau ar weithgareddau penodol darparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad.

Gweithredu

Cyfyngiadau arfaethedig ar ehangu gwasanaethau plant er-elw

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn, pe bai gwasanaethau plant er-elw o dan gyfyngiad yn parhau i ehangu, y gallai hynny danseilio'r broses o gyflawni'r diwygiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf 2025 yn effeithiol. Gallai ehangu pellach yn y farchnad er-elw ei gwneud hi'n fwy anodd i awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswydd digonolrwydd ac i gynllunio, comisiynu a datblygu darpariaeth nid-er-elw gynaliadwy yn eu hardaloedd neu'n agos atynt. Felly, bwriad y rheoliadau arfaethedig yw:

- sefydlogi tirwedd bresennol darparu gwasanaethau plant
- atal gwasanaethau er-elw rhag ehangu ymhellach yn ystod y cyfnod pontio
- helpu awdurdodau lleol i gynllunio ar gyfer darpariaeth nid-er-elw ddigonol

- sicrhau bod cyllid cyhoeddus ac adnoddau'r system yn canolbwyntio ar wella canlyniadau a sefydlogrwydd i blant a phobl ifanc.

Mae'r ymgynghoriad yn nodi newidiadau rheoliadol arfaethedig i gyfyngu ar ehangu gwasanaethau plant er-elw o dan gyfyngiad sy'n bodoli eisoes. Byddai'r cynigion hyn yn atal cartrefi plant er-elw sy'n bodoli eisoes rhag ychwanegu gwelyau newydd ac yn gwahardd darparwyr gwasanaethau maethu er-elw sy'n bodoli eisoes rhag cymeradwyo unrhyw ofalwyr maeth newydd. Bwriad y rheoliadau (sydd i'w gwneud o dan Atodlen 1A i Ddeddf 2016) yw atal twf pellach mewn darpariaeth er-elw, tra bydd diwygiadau ehangach i wasanaethau gofal a chymorth plant yn cael eu rhoi ar waith.

Mae'r cyfyngiadau arfaethedig hyn yn rhagolygol eu natur a byddent ond yn gymwys i ehangu yn y dyfodol, o 1 Ebrill 2027. Ni fyddent yn:

- ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr er-elw sy'n bodoli eisoes beidio â gweithredu
- effeithio ar leoliadau sy'n bodoli eisoes na phlant na phobl ifanc sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd
- effeithio ar ofalwyr maeth sydd eisoes wedi'u cymeradwyo gan wasanaethau maethu er-elw, nac yn
- lleihau nifer y lleoedd cofrestredig mewn cartrefi plant ar hyn o bryd na lleoliadau cymeradwy gwasanaethau maethu

Parhad cymeradwyaethau gofalwyr maeth

Nododd yr ymgynghoriad hefyd ddiwygiadau arfaethedig i **Reoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018** i ganiatáu tybio, o dan amgylchiadau cyfyngedig, bod cymeradwyaethau gofalwyr maeth yn trosglwyddo oddi wrth ddarparwyr gwasanaethau maethu er-elw i ddarparwyr gwasanaethau maethu nid-er-elw, gyda mesurau diogelu priodol ar waith i sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl ar blant, gofalwyr maeth a theuluoedd.

Yr ymgynghoriad

Cynhaliwyd ymgynghoriad dros 12 wythnos rhwng 1 Gorffennaf a 23 Medi 2026. Gofynnwyd i ymatebwyr gyflwyno eu safbwyntiau drwy ffurflen ar-lein, drwy e-bost neu drwy'r post. Anfonwyd hysbysiad o'r ymgynghoriad drwy e-bost at amrywiaeth o randdeiliaid â diddordeb yn y cynigion a chyhoeddodd y Dirprwy Weinidog dros Ofal Cymdeithasol, Iechyd Meddwl ac Iechyd Menywod ddechrau'r ymgynghoriad drwy Ddatganiad Ysgrifenedig.

Ymateb i'r ymgynghoriad

Cafodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o 48 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Fe'u cyflwynwyd gan amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys awdurdodau lleol unigol, cyrff cynrychioliadol ar gyfer llywodraeth leol, undebau llafur, sefydliadau sy'n cynrychioli darparwyr cartrefi plant a gwasanaethau maethu, a sefydliadau sy'n cynrychioli buddiannau plant a phobl ifanc. Nid ymatebodd pob ymgynghorai i bob pennod o'r ymgynghoriad.

Mae'r crynodeb canlynol yn ystyried y ddau gynnig ar wahân: (i) cyfyngiadau ar ehangu gwasanaethau plant er-elw sy'n bodoli eisoes ymhellach; a (ii) parhad cymeradwyaethau gofalwyr maeth.

Cyfyngiadau arfaethedig ar ehangu gwasanaethau plant er-elw

Cwestiwn 1 – A ydych yn cytuno bod y defnydd arfaethedig o bwerau i wneud rheoliadau ym mharagraff 3(1) o Atodlen 1A i Ddeddf 2016, gyda chyfyngiadau yn dod i rym o 1 Ebrill 2027, yn briodol ac yn gymesur?

Crynodeb o'r ymatebion

Cyflwynodd rhai ymatebwyr sylwadau uniongyrchol ar y defnydd arfaethedig o bwerau i wneud rheoliadau, roedd eraill, ar y llaw arall, yn canolbwyntio mwy ar y polisi dileu elw ehangach, gan gynnwys safbwyntiau ehangach ar fodelau gofal er-elw ac nid-er-elw a rôl darparwyr er-elw.

O blith y rhai a fynegodd farn glir, cytunodd mwyafrif bach fod y defnydd arfaethedig o'r pwerau i wneud rheoliadau yn briodol ac yn gymesur, gyda rhai yn nodi eu bod yn rhan bwysig o'r dull cyffredinol o roi'r cyfyngiadau arfaethedig ar waith fesul cam.

Roedd rhai ymatebwyr yn gwrthwynebu'r egwyddor y byddai'r cyfyngiadau arfaethedig yn gymwys i bob darpariaeth er-elw waeth beth fo ansawdd y gofal. Roedd pryderon yn canolbwyntio ar sut y byddai'r cyfyngiadau'n gweithio'n ymarferol a sut y byddai'r cyfyngiadau hynny'n helpu i sicrhau proses bontio sefydlog i system gofal nid-er-elw. Galwodd sawl ymatebydd am lwybr clir ac ymarferol i ddarparwyr sy'n awyddus i symud i fodel nid-er-elw a ganiateir.

Pryder cyffredin ymhlith yr ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu'r cyfyngiadau arfaethedig neu a osododd amodau ar eu cefnogaeth iddynt, oedd y byddai'r cyfyngiadau'n dod i rym yn syth ar ôl i awdurdodau lleol gyhoeddi eu cynlluniau digonolrwydd blynyddol cychwynnol. Dadleuodd rhai ymatebwyr na fyddai hyn yn gadael digon o amser i asesu'r dystiolaeth yn y cynlluniau hynny, yn enwedig a fyddai digon o ddarpariaeth addas nid-er-elw ar gael i blant ag anghenion cymhleth neu blant y mae angen gofal arbenigol arnynt. O ganlyniad, pwysleisiodd rhai ymatebwyr bwysigrwydd sicrhau bod gwaith cynllunio ehangach yr awdurdod lleol wedi'i ymgorffori a bod darpariaeth nid-er-elw ddigonol ac addas ar gael cyn i unrhyw gyfyngiadau gael eu cyflwyno. Ystyriwyd bod hyn yn wir am wasanaethau arbenigol a phlant ag anghenion mwy cymhleth yn benodol.

Pwysleisiodd llawer o ymatebwyr yr angen am wybodaeth a goruchwyliaeth barhaus mewn perthynas â chapasiti'r farchnad, argaeledd y gweithlu, nifer y gofalwyr maeth, gweithgarwch ailsefydlu darparwyr a digonolrwydd lleoliadau pe bai'r cyfyngiadau arfaethedig yn cael eu cyflwyno. Ystyriwyd y byddai trefniadau o'r fath yn nodi ac yn rheoli unrhyw risgiau sy'n dod i'r amlwg ac yn helpu i sicrhau sefydlogrwydd yn ystod y cyfnod pontio.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Roedd y rhesymeg polisi ehangach dros ddileu elw o wasanaethau plant yn destun ymgynghoriad yn 2022 a chraffu helaeth yn ystod hynt Deddf 2025 drwy'r Senedd. Er bod y polisi wedi'i benderfynu bellach, rydym yn parhau i gydnabod cryfder y

teimladau a fynegwyd mewn llawer o'r ymatebion, i'r ymgynghoriad hwn ac ymarferion blaenorol. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r sector drwy gydol y broses o'i roi ar waith er mwyn sicrhau bod pob barn yn cael ei chlywed a'i hystyried.

Nodwn y gefnogaeth a fynegwyd o blaid y defnydd arfaethedig o'r pwerau i wneud rheoliadau. Ar ôl adolygu'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym o'r farn bod y cyfyngiadau arfaethedig o 1 Ebrill 2027 ymlaen yn rhan briodol a chymesur o'r broses o roi'r diwygiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf 2025 ar waith fesul cam.

Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch cymhwyso'r cyfyngiadau at bob gwely a ychwanegir neu gymeradwyaeth gofalwyr maeth a roddir gan ddarparwyr er-elw, gan gynnwys lle mae darparwr yn darparu gofal o ansawdd uchel neu lle mae awdurdod lleol yn nodi angen penodol yn ei ardal. Fodd bynnag, diben y cyfyngiadau yw atal twf pellach darpariaeth er-elw a darparu sail glir a chyson y gall awdurdodau lleol a darparwyr gynllunio arni. Byddai cyflwyno eithriadau yn seiliedig ar ddarparwyr unigol neu benderfyniadau comisiynu lleol yn anghyson â'r diben hwnnw a gallai greu ansicrwydd ynghylch sut y dylai'r cyfyngiadau weithio. Fel y nodir yn yr ymgynghoriad, dim ond i ehangu yn y dyfodol y mae'r cyfyngiadau arfaethedig yn gymwys ac ni fyddant yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr presennol roi'r gorau i weithredu nac yn cael effaith uniongyrchol ar leoedd, cymeradwyaethau gofalwyr maeth na lleoliadau presennol.

Rydym hefyd yn cydnabod yr angen am drefniadau gweithredu clir ac ymarferol. Byddwn yn parhau i ariannu Cwmpas er mwyn cefnogi darparwyr sy'n ystyried symud i fodel nid-er-elw a ganiateir a byddwn yn gweithio gydag AGC i roi eglurder ynglŷn â'r gofynion rheoleiddio.

Rydym yn cydnabod pryderon ynghylch amseriad y cyfyngiadau. Disgwylir i ddrafftiau cyntaf cynlluniau digonolrwydd blynyddol awdurdodau lleol gael eu cyhoeddi erbyn 1 Rhagfyr 2026 a byddant yn darparu sylfaen dystiolaeth gynnar ar alw, capasiti a darpariaeth arfaethedig, ledled Cymru, cyn iddynt gael eu cyhoeddi'n derfynol erbyn 1 Ebrill 2027. Gan adeiladu ar waith cynllunio presennol, bydd hyn yn cefnogi goruchwyliaeth leol, ranbarthol a chenedlaethol i nodi a yw darpariaeth ddigonol ac addas yn cael ei datblygu yn unol â'r bwriad.

Rydym yn cytuno y bydd monitro parhaus yn hanfodol. Byddwn yn defnyddio'r cynlluniau digonolrwydd, gwybodaeth am y farchnad a gweithgarwch ailsefydlu darparwyr i fonitro lleoliadau a chapasiti'r gweithlu, nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg a pharhau i adolygu effaith y cyfyngiadau, fel rhan o'r broses o'u rhoi ar waith.

Cwestiwn 2 – Pa effeithiau, os o gwbl, rydych chi'n eu rhagweld y bydd y cyfyngiadau arfaethedig yn eu cael ar blant, gofalwyr maeth a theuluoedd?

Crynodeb o'r ymatebion

Fel gyda'r cwestiwn blaenorol, dewisodd llawer o ymatebwyr ganolbwyntio ar y rhesymeg polisi ehangach dros ddileu elw yn hytrach na myfyrio'n benodol ar effeithiau posibl y cyfyngiadau arfaethedig.

Y pryder pennaf oedd y gallai cyfyngu ar welyau newydd a chymeradwyaethau gofalwyr maeth cyn bod darpariaeth amgen ar gael leihau capasiti a dewis, gan gynyddu'r tebygolrwydd y byddai plant yn cael eu lleoli ymhellach o'u cartref ac y byddai lleoliadau brys, anaddas neu heb eu cofrestru yn cael eu defnyddio. Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at risgiau penodol i blant ag anghenion cymhleth neu arbenigol, plant anabl a phlant sy'n siarad Cymraeg a grwpiau o frodyr a chwiorydd. Ymhlith yr effeithiau posibl a nodwyd roedd tarfu ar gyswllt â'r teulu, addysg, gofal iechyd a rhwydweithiau cymorth.

Codwyd pryderon hefyd ynghylch yr effaith bosibl ar gapasiti maethu. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y gallai cyfyngu ar allu gwasanaethau maethu er-elw i gymeradwyo gofalwyr newydd effeithio ar recriwtio, creu mwy o ansicrwydd i ofalwyr ac arwain at golli gofalwyr maeth profiadol. O ystyried hyn, pwysleisiodd rhai ymatebwyr yr angen am drefniadau trosglwyddo cymesur, cyfathrebu clir a pharhad cymorth er mwyn cynnal cydberthnasau sefydledig rhwng plant a gofalwyr.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod y polisi ehangach a chyfyngiadau pellach a ragwelir eisoes yn cael effaith gyda phlant yn cael eu symud o gartrefi er-elw sefydlog i leoliadau awdurdodau lleol. Ar wahân i'r sylwadau hyn, cododd un ymatebydd bryderon ynghylch trosiant y gweithlu o fewn darpariaeth awdurdodau lleol.

Nododd nifer o ymatebwyr na fyddai'r cyfyngiadau arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol yn uniongyrchol i leoliadau presennol ddod i ben. Fodd bynnag, nododd rhai y gallai'r cyfyngiadau effeithio ar blant a theuluoedd o hyd pe bai darparwyr yn cwtogi ar eu gwasanaethau neu'n gadael marchnad Cymru.

Nododd rhai ymatebwyr fanteision tymor hwy a allai ddeillio o'r symudiad ehangach at ddarpariaeth nid-er-elw, gan gynnwys mwy o ailfuddsoddi mewn gofal, datblygu'r gweithlu a chanlyniadau gwell i blant. Gwnaethant bwysleisio y byddai'r manteision hyn yn dibynnu ar gynnal digon o leoliadau a rheoli'r broses bontio heb darfu diangen.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Fel gyda'r cwestiwn blaenorol, rydym yn cydnabod y teimladau cryf parhaus ynghylch y polisi cyffredinol a byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r sector drwy gydol y broses o'i roi ar waith.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cynnal lleoliadau digonol a phriodol, yn enwedig ar gyfer plant ag anghenion cymhleth neu arbenigol. Bydd gwaith cynllunio digonolrwydd a threfniadau comisiynu awdurdodau lleol a ddisgrifiwyd mewn ymateb i Gwestiwn 1 yn helpu i ystyried yr anghenion hynny.

Rydym yn cydnabod y gallai darpariaeth leol neu ranbarthol annigonol effeithio ar fynediad plant at gydberthnasau teuluol, addysg, gofal iechyd a rhwydweithiau cymorth sefydledig, a rhoi pwysau ymarferol ychwanegol ar unigolion a theuluoedd. Bydd angen ystyried y ffactorau hyn drwy waith cynllunio digonolrwydd a phenderfyniadau lleoli unigol.

Rydym hefyd yn cydnabod bod recriwtio a chadw staff a pharhad cymorth yn hanfodol i hyrwyddo a diogelu capasiti maethu. Byddai'r trefniadau trosglwyddo arfaethedig (yr ymdrinnir â nhw yn ail ran y ddogfen gryno hon) yn caniatáu i gymeradwyaethau gofalwyr maeth presennol barhau, mewn amgylchiadau cyfyngedig, lle y bydd gwasanaeth er-elw yn ailsefydlu fel gwasanaeth nid-er-elw. Bydd hyn yn lleihau tarfu diangen, er y bydd angen parhau i fonitro tueddiadau ehangach o ran recriwtio a chadw staff yn ofalus.

Fel y nodwyd yn ein hymateb i Gwestiwn 1, dim ond i dwf yn y dyfodol y mae'r cyfyngiadau'n gymwys. Gall gwasanaethau presennol barhau i weithredu yn ystod y cyfnod pontio ac nid yw'r cyfyngiadau eu hunain yn ei gwneud yn ofynnol i leoliadau presennol ddod i ben. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai penderfyniadau darparwyr gael effaith anuniongyrchol ar gapasiti yn ystod y broses bontio. Felly, byddwn yn parhau i fonitro bwriadau darparwyr, gweithgarwch yn y farchnad ac argaeledd lleoliadau.

Cwestiwn 3 – Pa effeithiau y gallai'r cyfyngiadau arfaethedig eu cael ar ddigonolrwydd gwasanaethau a threfniadau comisiynu awdurdodau lleol?

Crynodeb o'r ymatebion

Fel gydag ymatebion i gwestiynau blaenorol, ymdriniodd rhai ymatebion â'r polisi dileu elw ehangach yn hytrach na'r effeithiau penodol ar ddigonolrwydd a threfniadau comisiynu. Fodd bynnag, y thema amlycaf oedd pryder y gallai'r cyfyngiadau arfaethedig roi pwysau ychwanegol ar ddigonolrwydd gwasanaethau oni bai bod digon o gapasiti o fewn awdurdodau lleol a'r sector nid-er-elw yn cael ei ddatblygu ymlaen llaw. Nododd rhai ymatebwyr fanteision tymor hwy posibl ar gyfer cynllunio, comisiynu a sicrhau mwy o fuddsoddiad mewn darpariaeth nid-er-elw, ond, ar y cyfan, ystyriwyd bod y manteision posibl hynny yn dibynnu ar ddatblygu capasiti newydd cyn rhoi'r polisi ar waith.

Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu'n arbennig, pe bai'r cyfyngiadau arfaethedig yn lleihau nifer y lleoliadau sydd ar gael a'r dewis o leoliadau cyn bod dewisiadau amgen addas ar gael, y gallai hyn gynyddu'r ddibyniaeth ar gomisiynu lleoliadau brys, cost uwch y tu allan i'r ardal neu leoliadau trawsffiniol. Pwysleisiodd sawl un nad oes a wnelo digonolrwydd â nifer y gwelyau cofrestredig neu ofalwyr cymeradwy yn unig, ond ei fod hefyd yn ymwneud â ph'un a yw lleoliadau'n addas ar gyfer anghenion, lleoliad, cydberthnasau rhwng brawd a chwaer, addysg neu ofynion therapiwtig y plentyn unigol.

Roedd effeithiau trefniadau comisiynu awdurdodau lleol yn thema gref. Awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai comisiynwyr wynebu llai o hyblygrwydd, mwy o gystadleuaeth am leoliadau sydd ar gael, chwiliadau hirach am leoliadau, costau uwch, mwy o ddibyniaeth ar drefniadau brys a phwysau ychwanegol o ran caffael, rheoli contractau a goruchwylio'r farchnad. Ystyriwyd bod awdurdodau gwledig ac awdurdodau'r gororau yn arbennig o agored, am fod marchnadoedd lleol yn gyfyngedig gyda mwy o ddibyniaeth, ar y cyfan, ar ddarpariaeth arbenigol neu drawsffiniol.

Codwyd capasiti'r gweithlu a chapasiti maethu hefyd. Tynnodd ymatebwyr sylw at heriau o ran recriwtio a chadw staff mewn sawl ardal. Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu y gallai cyfyngiadau ar allu gwasanaethau maethu er-elw i gymeradwyo gofalwyr newydd, neu broses feichus ar gyfer trosglwyddo gofalwyr maeth, effeithio ar gapasiti asesu a lleihau argaeledd cyffredinol lleoliadau maeth.

Nododd ymatebwyr hefyd gyfleoedd ar gyfer trefniadau comisiynu mwy strategol a chydweithredol, wedi'u hategu gan waith cynllunio rhanbarthol, gwybodaeth ddibynadwy am y farchnad, cyllid cynaliadwy a gwybodaeth gliriach am fwriadau darparwyr. Fel gyda chwestiynau blaenorol, galwodd ymatebwyr am fonitro a lliniaru gweithredol yn ystod y cam gweithredu, gan gynnwys goruchwylio capasiti, darpariaeth arbenigol a darpariaeth Gymraeg, tueddiadau o ran y gweithlu, argaeledd lleoliadau, ailsefydlu darparwyr, llai o fuddsoddiad neu ddarparwyr yn gadael y farchnad, effeithiau ar drefniadau comisiynu a chanlyniadau plant. Gwnaethant hefyd bwysleisio fod angen trefniadau cydweithio a mecanweithiau rhanbarthol cryfach er mwyn gallu ymateb os bydd risgiau o ran digonolrwydd yn dod i'r amlwg.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Fel gyda'r cwestiynau blaenorol, rydym o'r farn bod y cyfyngiadau arfaethedig yn gam angenrheidiol a chymesur yn y broses o roi'r cynllun i drawsnewid i fodel nid-er-elw ar waith fesul cam.

Rydym yn cydnabod y pryder y gallai argaeledd lleoliadau ddod o dan bwysau ychwanegol os na fydd capasiti awdurdodau lleol a chapasiti nid-er-elw yn datblygu ar y cyflymder sydd ei angen. Byddwn yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid yn y sector i gefnogi'r gwaith o ddatblygu darpariaeth nid-er-elw gynaliadwy, creu digon o gapasiti ac ymdrin â heriau gweithredu. Bydd cynlluniau digonolrwydd blynyddol awdurdodau lleol yn darparu sylfaen dystiolaeth fwy cyson ar anghenion presennol ac anghenion a ragwelir, y capasiti presennol, y ddarpariaeth arfaethedig a bylchau a nodwyd. Caiff cynlluniau drafft eu hadolygu ym mis Rhagfyr 2026, cyn eu cyhoeddi'n derfynol erbyn 1 Ebrill 2027, er mwyn helpu i nodi'n gynnar feysydd lle y gallai fod angen camau gweithredu neu gymorth pellach. Gan adeiladu ar drefniadau cynllunio lleol a rhanbarthol presennol, bydd y cynlluniau blynyddol, ochr yn ochr â gwybodaeth am y farchnad ac ymgysylltu parhaus â darparwyr, yn helpu i sicrhau bod risgiau sy'n dod i'r amlwg yn cael eu nodi'n gynnar.

Rydym hefyd yn cydnabod nad oes a wnelo digonolrwydd â chyfanswm nifer y gwelyau cofrestredig neu ofalwyr maeth cymeradwy yn unig. Rhaid i'r ddarpariaeth fod yn addas i blant unigol, gan gynnwys y rhai ag anghenion cymhleth neu arbenigol, grwpiau o frodyr a chwiorydd, plant anabl a phlant sy'n siarad Cymraeg, a rhaid iddi ystyried ffactorau megis lleoliad, addysg, iechyd, cydberthnasau teuluol a chymorth therapiwtig. Bydd angen adlewyrchu'r ystyriaethau hyn mewn trefniadau cynllunio digonolrwydd lleol a rhanbarthol ac mewn penderfyniadau lleoli unigol

Rydym yn cydnabod y pwysau posibl a nodwyd ar gomisiynwyr awdurdodau lleol. Byddwn yn parhau i weithio gyda Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant ac awdurdodau lleol i gryfhau trefniadau cynllunio lleol a rhanbarthol, trefniadau comisiynu cydweithredol a goruchwyliaeth o'r farchnad. Rydym yn cydnabod y gallai awdurdodau gwledig ac awdurdodau'r gororau wynebu heriau penodol oherwydd marchnadoedd lleol mwy cyfyngedig a mwy o ddibyniaeth ar ddarpariaeth arbenigol neu drawsffiniol.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd capasiti a sefydlogrwydd y gweithlu ar draws meysydd gofal preswyl, maethu, comisiynu a gwaith cymdeithasol. Mewn perthynas â maethu, dangosir hyn drwy ein cynnig i alluogi parhad cymeradwyaethau gofalwyr maeth o dan amgylchiadau diffiniedig pan fydd darparwr yn ailsefydlu fel gwasanaeth nid-er-elw. Rhoddir rhagor o fanylion am y cynnig hwn yn ail hanner y ddogfen gryno hon.

Fel y nodwyd mewn ymateb i gwestiynau blaenorol, rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd tryloywder a goruchwyliaeth effeithiol. Drwy gynlluniau digonolrwydd awdurdodau lleol, gwybodaeth am y farchnad ac ymgysylltu parhaus â'r sector, gan gynnwys y Bwrdd Gweithredu Plant Nid-er-elw ("y Bwrdd Gweithredu"), byddwn yn monitro dangosyddion allweddol, gan gynnwys argaeledd lleoliadau, darpariaeth arbenigol a darpariaeth Gymraeg, tueddiadau o ran y gweithlu, ailsefydlu darparwyr neu ddarparwyr sy'n gadael y farchnad ac effeithiau ar drefniadau comisiynu.

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i nodi risgiau i ddigonolrwydd a ddaw i'r amlwg yn ystod y cam gweithredu a mynd i'r afael â'r risgiau hynny.

Cwestiwn 4 – Pa effeithiau eraill (gan gynnwys unrhyw gostau neu fanteision) y gallai'r cynigion eu cael ar y sector gofal a chymorth, yn eich barn chi? Byddem yn croesawu eich barn ynglŷn â sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu sut y gellid lliniaru effeithiau negyddol hefyd.

Crynodeb o'r ymatebion

Nododd yr ymatebwyr amrywiaeth o effeithiau y gallai'r cyfyngiadau arfaethedig eu cael. Roedd rhai o'r farn, ochr yn ochr â thwf mewn darpariaeth nid-er-elw, y gallai'r newidiadau alluogi mwy o ailfuddsoddi mewn gwasanaethau a gwella tryloywder, atebolrwydd a hyder y cyhoedd.

Fodd bynnag, roedd llawer yn pryderu y gallai llai o gapasiti ymhlith darparwyr gyfyngu ar ddarpariaeth arbenigol, yn enwedig i blant ag anghenion cymhleth, gan arwain at lai o leoliadau, arosiadau hirach, mwy o ansefydlogrwydd a mwy o ddefnydd o leoliadau y tu allan i'r ardal neu leoliadau trawsffiniol. Felly, pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd cynnal capasiti drwy gyllid digonol, cymorth i'r gweithlu, gwaith monitro a goruchwyliaeth effeithiol, ochr yn ochr â mesurau diogelwch megis cynllunio wrth gefn, ymgysylltu â rhanddeiliaid a mesurau parhad gofal. Pwysleisiodd llawer hefyd fod angen proses drawsnewid fesul cam gydag amserlenni realistig ac adolygiadau rheolaidd.

Cymysg oedd y farn ar effeithiau ar y gweithlu. Tynnodd ymatebwyr sylw at gyfleoedd i fuddsoddi mwy mewn hyfforddiant, datblygu ac amodau cyflogaeth gwell, ond gwnaethant hefyd godi pryderon ynghylch recriwtio a chadw staff, pwysau ar y gweithlu a llesiant, mwy o ddibyniaeth ar staff asiantaeth ac ansicrwydd i ddarparwyr er-elw presennol. Roedd rhai o'r farn y gallai cyfyngiadau beri i ddarparwyr leihau eu buddsoddiad neu adael marchnad Cymru, gyda chanlyniadau posibl ar gyfer arloesedd ac ansawdd gwasanaethau.

Yn yr un modd, cymysg oedd y farn ar gostau. Roedd rhai ymatebwyr yn rhagweld y gallai manteision ariannol tymor hwy ddeillio o ailfuddsoddi mwy neu ddefnyddio darpariaeth fewnol neu ddarpariaeth nid-er-elw. Yn gysylltiedig â'r polisi ehangach, cyfeiriodd eraill at gostau cyfreithiol, costau sefydliadol, costau cychwyn a chostau gweithredu parhaus sylweddol gan nodi nad yw darpariaeth nid-er-elw o reidrwydd yn rhatach.

Er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf posibl a chefnogi sefydlogrwydd y farchnad, galwodd rhai ymatebwyr am ganllawiau clir, cyngor arbenigol a chyllid i ddarparwyr newydd, trefniadau trosglwyddo cymesur a phrosesau comisiynu mwy cydweithredol a thryloyw sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Gwnaethant hefyd bwysleisio pwysigrwydd gwaith cynllunio rhanbarthol, gweithio mewn partneriaeth, gwybodaeth am y farchnad a rhannu arferion da. Galwodd rhai ymatebwyr hefyd am oruchwyliaeth ariannol a goruchwyliaeth lywodraethu effeithiol er mwyn sicrhau bod manteision arfaethedig y polisi yn cael eu gwireddu.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn cytuno y gallai'r cyfyngiadau arfaethedig, fel rhan o'r broses ehangach o drawsnewid i fodel gofal nid-er-elw, helpu i sicrhau mwy o dryloywder ac

atebolrwydd, gan greu mwy o gyfleoedd i ailfuddsoddi yng ngofal plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gofalu amdanynt.

Rydym yn cydnabod pryderon a godwyd ynghylch capasiti darparwyr, effeithiau ar y gweithlu, sefydlogrwydd y farchnad ac argaeledd darpariaeth arbenigol, yn enwedig ar gyfer plant ag anghenion cymhleth. Rydym hefyd yn cydnabod pryderon y gallai llai o gapasiti gynyddu'r ddibyniaeth ar leoliadau y tu allan i'r ardal neu leoliadau trawsffiniol. Nodir y trefniadau ar gyfer monitro a rheoli'r risgiau hyn yn ein hymateb i Gwestiwn 3.

Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd capasiti'r gweithlu, sefydlogrwydd a llesiant. Bwriedir i'r diwygiadau ehangach gefnogi ailfuddsoddi mewn datblygu'r gweithlu ac ansawdd gwasanaethau. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod pryderon y gallai ansicrwydd effeithio ar recriwtio, cadw staff, hyder darparwyr a buddsoddiad yn ystod y cyfnod pontio. Byddwn yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol, darparwyr, AGC, Gofal Cymdeithasol Cymru ('GCC') a phartneriaid eraill yn sector er mwyn monitro tueddiadau o ran y gweithlu, helpu i roi'r polisi ar waith a nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg i ansawdd neu gapasiti gwasanaethau.

Nodwn y farn gymysg ar gostau. Er y gallai ailfuddsoddi mwy a defnydd mwy strategol o ddarpariaeth fewnol a darpariaeth nid-er-elw gynnig manteision tymor hwy, rydym yn cydnabod y bydd costau cyfreithiol, costau sefydliadol, costau cychwyn a chostau gweithredu parhaus yn codi ac na fydd darpariaeth nid-er-elw o reidrwydd yn rhatach. Bydd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Rheoliadau yn adlewyrchu'r manteision a'r risgiau posibl a nodwyd drwy'r ymgynghoriad.

Rydym yn cytuno y bydd canllawiau clir, cyngor arbenigol a threfniadau comisiynu cydweithredol yn bwysig. Fel y nodir yn ein hymateb i Gwestiwn 1, bydd cymorth yn parhau i fod ar gael i ddarparwyr sy'n ystyried ailsefydlu o dan fodel nid-er-elw a ganiateir. Bydd goruchwyliaeth reoleiddiol, goruchwyliaeth ariannol a goruchwyliaeth lywodraethu briodol yn parhau i fod yn bwysig er mwyn sicrhau bod modelau a ganiateir yn gweithredu'n gyson â bwriad y polisi.

Cwestiwn 5 – Nodwch pa gyrff y byddai'r rheoliadau arfaethedig o bosibl yn effeithio (manteision, anfanteision, costau, arbedion) arnynt?

Crynodeb o'r ymatebion

Nododd ymatebwyr amrywiaeth eang o gyrff a grwpiau ym mhob rhan o'r system gofal plant y mae'n debygol yr effeithir arnynt, gan gynnwys plant a phobl ifanc, awdurdodau lleol, darparwyr, gofalwyr maeth, y gweithlu, rheoleiddwyr, Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus ehangach. Codwyd effeithiau ar y sector gofal a chymorth plant gan lawer o'r ymatebwyr mewn ymateb i Gwestiwn 4 ac fe'u nodir yn y adran honno.

Er bod gwahaniaeth barn o ran maint a natur yr effeithiau, ar y cyfan nododd ymatebwyr mai ar blant a phobli ifanc y byddai'r polisi yn cael yr effaith fwyaf uniongyrchol. Roedd rhai o'r farn y gallai'r cyfyngiadau helpu i sicrhau mwy o ailfuddsoddi mewn gwasanaethau a chynyddu hyder y cyhoedd. Fodd bynnag, cododd llawer bryderon y gallai unrhyw leihad yn nifer y lleoliadau sydd ar gael arwain at baru gwaeth, ansefydlogrwydd lleoliadau, llai o ddewis o leoliadau, oedi cyn cael gofal addas a mwy o leoliadau ymhellach o gartref. Nodwyd risgiau penodol ar gyfer plant ag anghenion cymhleth, plant anabl, grwpiau o frodyr a chwiorydd a phlant sy'n siarad Cymraeg.

Roedd ymatebwyr yn rhagweld pwysau ariannol a gweithredol sylweddol ar awdurdodau lleol. Roedd y rhain yn cynnwys mwy o weithgarwch comisiynu a chanfod lleoliadau, goruchwyliaeth ychwanegol o'r farchnad, datblygu'r gweithlu a gwasanaethau a chostau creu neu sicrhau darpariaeth nid-er-elw newyddd yn lle darpariaeth a gollwyd. Fel pwynt am y polisi ehangach, tynnodd rhai sylw at y ffaith y gallai darparwyr fynd i gostau cyfreithiol a chostau sy'n gysylltiedig â gwaith ailstrwythuro, llywodraethu a rheoleiddio, tra gallai gofalwyr maeth a gwasanaethau maethu wynebu ansicrwydd, beichiau ailasesu posibl a tharfu ar drefniadau cymorth sefydledig.

Roedd ymatebwyr hefyd yn rhagweld cyfrifoldebau ychwanegol a phwysau ychwanegol ar adnoddau ar gyfer Llywodraeth Cymru ac AGC mewn perthynas â rhoi'r cyfyngiadau ar waith, eu monitro a'u gorfodi. At hynny, tynnodd ymatebwyr sylw ar rolau ar gyfer GCC, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a chyrff comisiynu wrth gefnogi'r gwaith o gynllunio'r gweithlu a datblygu'r farchnad a sicrhau digonolrwydd gwasanaethau. Nododd rhai ymatebion hefyd effeithiau anuniongyrchol posibl ar wasanaethau iechyd, addysg a'r heddlu lle y bydd newidiadau i leoliadau yn effeithio ar y gallu i gael cymorth lleol neu arbenigol.

Ymhlith y manteision tymor hwy posibl a nodwyd roedd mwy o dryloywder, ailfuddsoddi mewn gwasanaethau a mwy o hyder ymhlith y cyhoedd. Fodd bynnag, ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr o'r farn na ddylid tybio y bydd arbedion ariannol, yn enwedig yn y byrdymor i'r tymor canolig. Ar y cyfan, roeddent o'r farn y byddai unrhyw fanteision yn dibynnu ar gynnal digon o leoliadau o ansawdd uchel, cefnogi datblygiad y gweithlu a gwasanaethau, rheoli'r ffordd y caiff y cyfyngiadau eu rhoi ar waith yn ofalus a monitro costau, capasiti a chanlyniadau anfwriadol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn cydnabod y gallai'r cyfyngiadau arfaethedig effeithio ar amrywiaeth eang o gyrff a grwpiau ym mhob rhan o'r system gofal plant i wahanol raddau. Ystyrir yr effeithiau ar blant a theuluoedd, awdurdodau lleol, darparwyr, gofalwyr maeth a'r gweithlu yn ein hymatebion i Gwestiynau 2-4. Mae'r ymateb hwn yn canolbwyntio ar y cyrff a'r gwasanaethau cyhoeddus ychwanegol y gellid effeithio arnynt.

Mae llesiant a dymuniadau plant a phobl ifanc yn parhau i fod yn ganolog i'r diwygiadau hyn. Bwredir i'r polisi ehangach helpu i sicrhau mwy o ailfuddsoddi mewn gofal a chanlyniadau gwell, ond rydym yn cydnabod pryderon y gallai lleihad yn nifer y lleoliadau sydd ar gael effeithio ar ddewis, paru, sefydlogrwydd ac agosrwydd at adref, yn enwedig i blant ag anghenion cymhleth, plant anabl, grwpiau o frodyr a chwiorydd a phlant sy'n siarad Cymraeg. Bydd cynlluniau digonolrwydd blynyddol awdurdodau lleol, gwybodaeth am y farchnad a phenderfyniadau lleoli unigol yn helpu i nodi a rheoli'r risgiau ac ymateb iddynt.

Rydym yn cydnabod y pryderon ariannol a gweithredol a nodwyd ar gyfer awdurdodau lleol, darparwyr, gofalwyr maeth a gwasanaethau maethu. Ymdrinnir â'r effeithiau hyn yn ein hymatebion i gwestiynau 3 a 4.

Rydym hefyd yn cydnabod y cyfrifoldebau ychwanegol a'r pwysau ychwanegol ar adnoddau ar gyfer cyrff gan gynnwys Llywodraeth Cymru ac AGC, yn ogystal â rôl GCC, partneriaethau rhanbarthol a chyrff comisiynu. Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid i gefnogi cynllunio'r gweithlu, datblygu'r farchnad, digonolrwydd gwasanaethau a goruchwyliaeth reoleiddiol briodol. Bydd effeithiau ar wasanaethau cyhoeddus cysylltiedig, gan gynnwys iechyd, addysg a phlismona, yn parhau i gael eu hystyried drwy'r trefniadau gweithredu a monitro ehangach.

Nodwn y manteision tymor hwy posibl a nodwyd gan rai ymatebwyr. Mae'r costau, yr arbedion a'r manteision ehangach a allai ddeillio o'r cyfyngiadau arfaethedig wedi'u trafod yn ein hymateb i Gwestiwn 4.

Cwestiwn 6 – A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r cyfyngiadau arfaethedig y dylai Gweinidogion Cymru eu hystyried cyn gwneud y rheoliadau?

Crynodeb o'r ymatebion

Un o'r prif bryderon oedd y gallai'r cyfyngiadau arfaethedig leihau capasiti lleoliadau a darparwyr yn gyflymach nag y bydd capasiti nid-er-elw digonol yn cael ei ddatblygu. Roedd rhai ymatebwyr yn rhagweld y byddai darparwyr yn tynnu'n ôl, y byddai llai o fuddsoddiad neu y byddai gwaith datblygu yn cael ei ohirio yn hytrach na symud i fodel nid-er-elw a ganiateir. Gallai hyn gyfrannu at gywasgu neu gydgrynhoi'r farchnad, a cholli darpariaeth leol, darpariaeth arbenigol a darpariaeth sy'n eiddo i Gymru, gydag effeithiau penodol ar ddarparwyr llai o faint ac ardaloedd gwledig neu ardaloedd y gororau

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y gallai lleihad yn nifer y lleoliadau sydd ar gael arwain at lai o opsiynau addas, paru gwaeth, costau lleoli uwch a mwy o ddefnydd o drefniadau brys, anaddas, heb eu cofrestru, y tu allan i'r ardal neu y tu allan i Gymru. Nododd rhai fod pryderon yn arbennig o ddifrifol yn achos ardaloedd gwledig, awdurdodau a darparwyr llai o faint a phlant y mae angen lleoliadau arbenigol, lleoliadau therapiwtig, lleoliadau anabledd, lleoliadau grwpiau o frodyr a chwiorydd neu leoliadau Cymraeg arnynt. Rhagwelwyd hefyd y byddai pwysau ychwanegol ar wasanaethau awdurdodau lleol, timau diogelu, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) a gwasanaethau iechyd cymunedol. Nododd nifer o ymatebwyr hefyd y gallai ansicrwydd ynghylch trefniadau yn y dyfodol ei hun effeithio ar sefydlogrwydd a llesiant plant.

Tynnodd ymatebwyr sylw hefyd at ganlyniadau posibl i'r gweithlu gan gynnwys tarfu ar recriwtio a chadw staff gofal a gweithwyr proffesiynol arbenigol. Cafodd anawsterau wrth recriwtio a chadw gofalwyr maeth eu codi gan rai ymatebwyr hefyd fel problemau posibl. Pwysleisiodd sawl un bwysigrwydd sicrhau bod prosesau trosglwyddo gofalwyr maeth yn diogelu parhad cymorth, cofnodion, awdurdod dirprwyedig a chydberthnasau sefydledig, gan osgoi prosesau ailasesu diangen a rhoi cymorth priodol i ofalwyr a staff.

Codwyd rhai pryderon y gallai llai o gystadleuaeth a chyflenwad cyfyngedig gynyddu costau lleoli a gwariant cyhoeddus ehangach. Fel pwynt ehangach, gofynnodd eraill a fyddai newidiadau mewn modelau perchnogaeth yn unig yn gwella ansawdd neu'n cynyddu gwerth a dadlau y byddai angen craffu trylwyr er mwyn atal elw rhag cael ei dynnu'n barhaus drwy drefniadau ariannol amgen. At hynny, nododd rhai ymatebwyr risg y gallai cyfyngiadau atal darparwyr presennol rhag ymateb yn hyblyg i anghenion lleol neu arbenigol penodol.

Galwodd nifer o ymatebwyr am ganllawiau clir, cymorth amserol i ddarparwyr a buddsoddiad parhaus mewn capasiti amgen ac am ddatblygu'r gweithlu a monitro argaeledd lleoliadau, bwriadau darparwyr, tueddiadau o ran y gweithlu, costau a chanlyniadau plant yn barhaus. Nodwyd yn fynych fod gwaith cynllunio wrth gefn, trefniadau rhybuddio cynnar a hyblygrwydd i ymateb pan fydd risgiau sylweddol i ddigonolrwydd yn dod i'r amlwg, yn fesurau lliniaru pwysig.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn cydnabod pryderon y gallai'r cyfyngiadau arfaethedig effeithio ar ddigonolrwydd lleoliadau os na fydd capasiti awdurdodau lleol a sefydliadau nid-er-elw yn datblygu ar y cyflymder sydd ei angen, a bod cyfran sylweddol o ddarparwyr yn dewis gadael y sector neu adleoli y tu allan i Gymru. Caiff y trefniadau digonolrwydd a monitro a ddisgrifir yn ein hymatebion i Gwestiynau 1 a 3 eu defnyddio i nodi'r risgiau hyn, gan gynnwys pwysau sy'n effeithio ar ddarpariaeth arbenigol a darpariaeth Gymraeg a lleoliadau mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd y gororau.

Rydym hefyd yn cydnabod pryderon ynghylch sefydlogrwydd y gweithlu a recriwtio a chadw gofalwyr maeth. Byddwn yn parhau i weithio gyda darparwyr, awdurdodau lleol, AGC a GCC er mwyn monitro tueddiadau o ran y gweithlu ac ystyried a allai unrhyw eglurhad pellach fod yn ddefnyddiol mewn perthynas â rhannu gwybodaeth, cofnodion, awdurdod dirprwyedig, trefniadau cymorth a chyfrifoldebau wrth drosglwyddo. Ystyrir materion sy'n ymwneud â pharhad cymeradwyaethau gofalwyr maeth a threfniadau trosglwyddo cysylltiedig yn ail ran y crynodeb hwn o'r ymgynghoriad.

Nodwn y pryderon a godwyd ynghylch costau lleoli a allai fod yn uwch, llai o gystadleuaeth a'r posibilrwydd y gallai trefniadau ariannol amgen danseilio bwriad y polisi. Bydd gofynion rheoleiddio clir, goruchwyliaeth reoleiddiol briodol, gwaith monitro parhaus ac ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid yn bwysig wrth nodi risgiau wrth iddynt godi a mynd i'r afael â nhw. Mae'r diwygiadau yn rhan o raglen newid ehangach sy'n cynnwys buddsoddi mewn atal, ymyrraeth gynnar, datblygu'r gweithlu a thwf darpariaeth nid-er-elw o ansawdd uchel. Gan adeiladu ar y trefniadau monitro a ddisgrifir yn ein hymatebion i Gwestiynau 1 a 3, byddwn yn adolygu bwriadau darparwyr, argaeledd lleoliadau, tueddiadau o ran y gweithlu, costau a chanlyniadau i blant yn rheolaidd ac yn defnyddio gwaith cynllunio gweithredu a chynllunio wrth gefn i ymdrin â materion sy'n dod i'r amlwg.

Cwestiwn 7 – Beth yw eich barn ar Adrannau 1 ac 8 o'r Asesiad Effaith Integredig ar gyfer y cynnig hwn? A oes unrhyw feysydd penodol lle mae angen rhagor o fanylion yn eich barn chi, neu faterion penodol a allai effeithio ar grŵp penodol?

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd rhai ymatebwyr, ar y cyfan, yn cefnogi'r ffordd y nododd Adrannau 1 ac 8 o'r Asesiad Effaith Integredig fanteision arfaethedig y cynigion a'r meysydd effaith eang. Fodd bynnag, y farn gyffredinol oedd bod angen rhagor o fanylion i alluogi dealltwriaeth lawnach o effeithiau'r cyfyngiadau arfaethedig. Roedd rhai sylwadau yn ymwneud ag egwyddorion ehangach dileu elw ac felly roeddent yn llai perthnasol yn uniongyrchol i'r cynigion penodol neu'r cwestiwn a ofynnwyd.

Nododd nifer o ymatebwyr feysydd lle y gallai rhagor o fanylion gryfhau'r asesiad. Roedd themâu cyffredin yn cynnwys yr angen i ystyried digonolrwydd lleoliadau a sefydlogrwydd y farchnad (gan gynnwys darparwyr yn gadael) yn fanylach, yr angen am ddarpariaeth arbenigol a risgiau yn gysylltiedig â llai o ddewis o leoliadau pe bai'r capasiti'n lleihau.

Roedd ymatebwyr o'r farn y dylai'r asesiad ystyried effeithiau ar hawliau, llesiant a chydraddoldeb plant yn fanylach, yn enwedig ar gyfer grwpiau ag anghenion ychwanegol neu arbenigol. Roedd pryderon yn canolbwyntio ar sefydlogrwydd lleoliadau, parhad gofal, mynediad at addysg a gwasanaethau iechyd, cysylltiadau â theuluoedd a chymunedau ac effeithiau anghymesur ar deuluoedd difreintiedig.

Cafodd materion yn ymwneud â chapasiti'r gweithlu, recriwtio a chadw staff eu codi fel materion pwysig hefyd. Tynnodd ymatebwyr sylw at bwysau posibl penodol ar weithluoedd preswyl a maethu, llwythi gwaith awdurdodau lleol a threfniadau trosglwyddo gofalwyr maeth a phwysau ariannol ehangach ar brosesau comisiynu a chyllidebau awdurdodau lleol. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr hefyd at yr angen i asesu effeithiau ar ddarpariaeth Gymraeg, argaeledd staff sydd wedi cael hyfforddiant addas a'r rhyngweithio â darpariaeth addysg arbenigol ac Anghenion Dysgu Ychwanegol. Gwnaethant hefyd bwysleisio'r angen am ymgysylltu parhaus â phlant a phobl ifanc, gwaith monitro tryloyw, tystiolaeth ategol a mesurau effeithiol i liniaru effeithiau anfwriadol. Ymhlith y meysydd yr awgrymwyd y dylid eu monitro roedd digonolrwydd lleoliadau, darpariaeth arbenigol a darpariaeth Gymraeg, bwriadau darparwyr a darparwyr yn gadael y sector, capasiti'r gweithlu, sefydlogrwydd lleoliadau, lleoliadau y tu allan i'r ardal a'r tu allan i Gymru, costau, a chanlyniadau a phrofiadau plant.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn croesawu barn yr ymatebwyr ac yn nodi'r gefnogaeth a fynegwyd i'r ffordd y mae Adrannau 1 ac 8 yn disgrifio bwriad y polisi a'r manteision a ragwelir. Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd adlewyrchu'r ystod lawn o risgiau ac effeithiau posibl sy'n gysylltiedig â rhoi'r cyfyngiadau arfaethedig ar waith.

Bydd yr adborth a gawsom drwy'r ymarfer hwn yn llywio'r Asesiad Effaith Integredig terfynol a'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a fydd yn ategu'r rheoliadau arfaethedig pan gânt eu gosod gerbron Senedd Cymru. Gyda'i

gilydd, bydd y dogfennau hyn yn darparu ystyriaeth fanylach o'r effeithiau na'r rhai a gyhoeddwyd gyda'r ddogfen ymgynghori. Mae hyn yn cynnwys ystyriaeth fanylach o hawliau plant, cydraddoldeb, y Gymraeg, digonolrwydd, y gweithlu, effeithiau economaidd a rheoleiddiol, yn ogystal â'r costau, y manteision, y risgiau a'r mesurau lliniaru cysylltiedig.

Parhad cymeradwyaethau gofalwyr maeth

Cwestiwn 8 – A ydych yn cytuno â'r dull arfaethedig o ganiatáu tybio bod cymeradwyaethau gofalwyr maeth yn trosglwyddo o dan yr amgylchiadau cyfyngedig a ddisgrifir, fel ffordd o gynnal parhad gofal i blant a lleihau'r baich gweinyddol ac ariannol ar ddarparwyr? Esboniwch eich barn.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd y mwyafrif llethol o'r ymatebwyr o blaid y trefniadau trosglwyddo tybiedig arfaethedig, gyda dim ond nifer bach o ymatebwyr yn mynegi gwrthwynebiad neu amheuon sylweddol.

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn cytuno y byddai'r cynnig yn helpu i gynnal sefydlogrwydd lleoliadau a pharhad gofal i blant, lleihau achosion o darfu ar ofalwyr maeth a theuluoedd maethu ac osgoi beichiau gweinyddol ac ariannol diangen sy'n gysylltiedig ag ailasesu ac ailgymeradwyo gofalwyr maeth presennol. Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn y byddai ei gwneud yn ofynnol i ofalwyr maeth cymeradwy gael ailasesiad llawn dim ond am fod gwasanaeth maethu wedi ailsefydlu fel endid cyfreithiol nid-er-elw yn anghymesur os na fu unrhyw newid sylweddol i'r gofalwr maeth, y lleoliad na'r trefniadau cymorth sydd ar waith**.**

Thema gyffredin oedd bod gofalwyr maeth cymeradwy eisoes yn destun goruchwyliaeth barhaus, adolygiadau blynyddol, goruchwyliaeth ddiogelu a gwiriadau statudol. Felly, roedd ymatebwyr o'r farn y byddai'r trefniadau arfaethedig yn golygu bod modd canolbwyntio adnoddau ar gefnogi plant a gofalwyr yn hytrach na dyblygu prosesau cymeradwyo presennol. Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw hefyd at y ffaith y gallai'r cynnig helpu i gadw gofalwyr maeth a lleihau'r risg y bydd gofalwyr profiadol yn gadael y sector yn ystod y broses o drawsnewid i ddarpariaeth nid-er-elw.

Pwysleisiodd llawer o ymatebwyr bwysigrwydd cynnal mesurau diogelwch priodol a goruchwyliaeth reoleiddiol barhaus. Tynnodd yr ymatebwyr sylw at yr angen am adolygiadau a gwiriadau statudol cyfredol, trefniadau rhannu gwybodaeth effeithiol, parhad cymorth a goruchwyliaeth, a chanllawiau gweithredol clir i gefnogi'r broses o roi'r polisi ar waith. Pwysleisiodd sawl ymatebydd hefyd bwysigrwydd sicrhau bod y trefniadau'n gweithredu mewn ffordd ddigon hyblyg i ddarparu ar gyfer ailstrwythuro sefydliadol dilys gan gynnal parhad a mesurau diogelwch priodol ar yr un pryd.

Er bod cefnogaeth eang o blaid y cynnig, gofynnodd nifer bach o ymatebwyr a oedd angen newid deddfwriaethol neu gwnaethant godi pryderon yn gysylltiedig â'r rhaglen ddiwygio ehangach. Ar y cyfan, nid oedd yr ymatebwyr hyn yn gwrthwynebu parhad gofal fel amcan ond gwnaethant fynegi amheuon ynghylch y cyd-destun polisi ehangach.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r gefnogaeth gadarn o blaid y dull gweithredu arfaethedig. Dengys yr ymatebion a gafwyd gytundeb cyffredinol y byddai'r

trefniadau yn helpu i gynnal parhad gofal i blant ac yn osgoi tarfu diangen pan fydd gwasanaeth maethu yn ailsefydlu fel sefydliad nid-er-elw.

Rydym yn cydnabod y pwys a roddodd ymatebwyr ar sicrhau bod plant yn parhau i brofi lleoliadau a chydberthnasau sefydlog drwy gydol unrhyw broses drawsnewid sefydliadol. Nodwn hefyd y farn y dylai trefniadau cymeradwyo, adolygu a diogelu presennol barhau i roi sicrwydd ynghylch addasrwydd gofalwyr maeth, gan osgoi dyblygu diangen pan na fu unrhyw newid sylweddol mewn amgylchiadau.

Nododd yr ymgynghoriad hefyd fod angen canllawiau ategol clir a phroses weithredu gyson. Byddwn yn ystyried yr adborth a gafwyd ar drefniadau gweithredol, rhannu gwybodaeth, parhad sefydliadol a gofynion goruchwylio wrth gwblhau'r Rheoliadau.

Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cynnal trefniadau diogelu a goruchwyliaeth reoleiddiol gadarn, gan osgoi beichiau gweinyddol diangen. Bydd yr adborth a gafwyd yn helpu i sicrhau bod y trefniadau terfynol yn taro cydbwysedd priodol rhwng cefnogi parhad a sefydlogrwydd i blant, cynnal hyder mewn cymeradwyaethau gofalwyr maeth a sicrhau mesurau diogelwch rheoleiddiol cymesur.

Cwestiwn 9 – A yw cwmpas y ddarpariaeth drosiannol arfaethedig yn ddigon eang? A ddylai fod yn gymwys o dan unrhyw amgylchiadau eraill?

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr o'r farn bod y cwmpas arfaethedig yn briodol ac yn gymesur, ar y cyfan, ar gyfer ei ddiben bwriadedig. Roedd llawer o ymatebwyr yn cytuno y dylai'r trefniadau barhau i ganolbwyntio ar amgylchiadau lle mae parhad trefniadol a gweithredol clir a lle y gall plant barhau i gael budd o leoliadau a threfniadau cymorth sefydlog. Fodd bynnag, awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r cwmpas fod yn ddigon hyblyg i ddarparu ar gyfer ystod ehangach o drefniadau ailstrwythuro sefydliadol dilys. Roedd enghreifftiau yn cynnwys uno, newidiadau i drefniadau llywodraethu, trosglwyddo gwasanaethau, ailstrwythuro sefydliadol ac amgylchiadau eraill lle y gellir dangos parhad trefniadau gofal, cymorth a diogelu yn glir.

P'un a oedd yr ymatebwyr o blaid cadw'r cwmpas arfaethedig neu ei ehangu, cafwyd cytundeb cyffredinol y dylai unrhyw ddefnydd o'r trefniadau trosiannol gael ei ategu gan fesurau diogelu a goruchwyliaeth reoleiddiol briodol. Pwysleisiodd ymatebwyr yn gyson mai dim ond lle y gellir dangos parhad gofal, trefniadau diogelu, strwythurau cymorth a sefydlogrwydd lleoliadau yn glir y dylai hyblygrwydd fod yn gymwys.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r gefnogaeth eang o blaid cwmpas arfaethedig y trefniadau trosiannol. Roedd yr ymatebion yn dangos cytundeb cyffredinol y byddai'r trefniadau yn cynnal parhad gofal i blant ac yn osgoi tarfu diangen ar gyfer gofalwyr maeth a gwasanaethau maethu yn ystod y broses o drawsnewid i ddarpariaeth nid-er-elw.

Nodwn fod nifer o ymatebwyr wedi awgrymu y dylid ehangu'r cwmpas er mwyn iddo fod yn gymwys i ystod ehangach o drefniadau ailstrwythuro sefydliadol. Er ein bod yn cydnabod y rhesymeg dros y safbwynt hwn, diben y darpariaethau hyn yw mynd i'r afael â mater penodol a chyfyngedig sy'n deillio o wasanaeth maethu yn trawsnewid o sefydliad er-elw i sefydliad nid-er-elw. Felly, lluniwyd y darpariaethau hyn yn fwriadol i fod yn gymwys pan fo lefel uchel o barhad sefydliadol a gweithredol yn unig a phan gellir diffinio'r amgylchiadau'n glir mewn deddfwriaeth.

Nid ydym o'r farn ei bod yn briodol estyn y darpariaethau yn ehangach ar hyn o bryd. Byddai ehangu'r cwmpas i gynnwys ystod ehangach o drefniadau ailstrwythuro, uno neu drosglwyddo yn cyflwyno mwy o gymhlethdod a gallai olygu bod llai o sicrwydd ynghylch pryd y dylai'r trefniadau fod yn gymwys. Gallai hefyd greu amgylchiadau lle mae newidiadau yn ddigon arwyddocaol i gyfiawnhau asesiad newydd o addasrwydd a threfniadau diogelu.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gredu bod y cwmpas arfaethedig yn taro cydbwysedd priodol rhwng cynnal parhad a sefydlogrwydd i blant, lleihau beichiau gweinyddol diangen a sicrhau trefniadau diogelu a goruchwyliaeth reoleiddiol cadarn. Fodd bynnag, bydd yr adborth a gafwyd yn llywio'r gwaith o ddatblygu canllawiau ategol er mwyn helpu i sicrhau bod y darpariaethau yn cael eu rhoi ar waith mewn ffordd gyson ac effeithiol yn ymarferol.

Cwestiwn 10 – I ba raddau y mae'r ffactorau arfaethedig yn sail addas ar gyfer asesu parhad sefydliadol a gweithredol o dan yr amgylchiadau hyn, yn eich barn chi? A oes unrhyw ffactorau ychwanegol y dylid eu hystyried?

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr o'r farn bod y ffactorau arfaethedig yn darparu sail addas ar gyfer asesu parhad sefydliadol a gweithredol ac, ar y cyfan, roeddent o blaid y dull gweithredu a oedd yn cael ei gynnig. Ystyriodd yr ymatebwyr y ffactorau i ddarparu sylfaen briodol ar gyfer penderfynu a oes parhad yn bodoli rhwng y sefydliad sy'n gadael y sector a'r sefydliad a fydd yn ei olynu.

Thema gyffredin oedd y dylai asesiadau ganolbwyntio ar y parhad ymarferol a brofir gan blant a gofalwyr maeth yn hytrach nag ar drefniadau cyfreithiol neu gorfforaethol yn unig. Pwysleisiodd llawer o ymatebwyr y dylid dangos parhad drwy gynnal lleoliadau, trefniadau cymorth a goruchwyliaeth ddiogelu sefydlog.

Awgrymodd llawer o ymatebwyr ffactorau ychwanegol y gellid eu hystyried ochr yn ochr â'r meini prawf arfaethedig. Roedd enghreifftiau a ddyfynnwyd yn aml yn cynnwys parhad gweithwyr cymdeithasol goruchwylio, systemau diogelu, trefniadau cymorth, strwythurau staffio, polisïau a gweithdrefnau, trefniadau sicrhau ansawdd, darparu hyfforddiant, trefniadau rhannu gwybodaeth a chynnal cydberthnasau sefydledig sy'n bwysig i blant a gofalwyr maeth.

Roedd sawl ymatebydd o'r farn y dylid cymhwyso'r ffactorau'n hyblyg ac fel rhan o asesiad cytbwys yn hytrach na rhestr wirio gaeth. Pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd cydnabod y gall darparwyr brofi newidiadau sefydliadol arferol, megis trosiant staff, ymddeoliad, newidiadau i drefniadau llywodraethu neu gynllunio olyniaeth, nad ydynt yn effeithio'n sylweddol ar barhad gwasanaeth.

Gofynnodd nifer o ymatebwyr hefyd am fwy o eglurder ynghylch trefniadau asesu, gan gynnwys y gofynion o ran tystiolaeth, cyfrifoldebau gwneud penderfyniadau a sut y byddai cysondeb yn cael ei sicrhau ledled Cymru.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r gefnogaeth eang i'r ffactorau arfaethedig ac yn nodi'r cytundeb cyffredinol eu bod yn darparu sail briodol ar gyfer asesu parhad sefydliadol a gweithredol.

Rydym yn cydnabod y pwys y mae ymatebwyr yn ei roi ar sicrhau bod asesiadau yn rhoi sicrwydd bod parhad wedi'i gynnal yn ymarferol, gan roi digon o hyblygrwydd hefyd i adlewyrchu gwahanol strwythurau ac amgylchiadau sefydliadol. Nodwn hefyd yr awgrymiadau a wnaed ynghylch materion ychwanegol a allai gefnogi prosesau gwneud penderfyniadau a chryfhau hyder yn y broses.

Tynnodd yr ymgynghoriad sylw at bwysigrwydd sicrhau bod y trefniadau yn glir ac yn dryloyw ac y gellir eu rhoi ar waith yn gyson. Byddwn yn ystyried yr adborth a gafwyd wrth i'r Rheoliadau gael eu cwblhau, gan gynnwys yr angen am eglurder ynghylch meini prawf asesu, y gofynion o ran tystiolaeth a threfniadau gweithredu.

Bydd yr adborth a gafwyd yn helpu i sicrhau bod y fframwaith terfynol yn darparu sail gadarn a chymesur ar gyfer asesu parhad gan gynnal ffocws clir ar ddiogelu, sefydlogrwydd lleoliadau a chanlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc.

Cwestiwn 11 – A ydych yn cytuno bod y mesurau diogelu arfaethedig yn ddigon i sicrhau bod plant yn cael eu goruchwylio a'u hamddiffyn yn briodol lle yr ystyrir bod cymeradwyaethau gofalwyr maeth yn trosglwyddo? Eglurwch eich ateb, gan gynnwys unrhyw fesurau diogelu ychwanegol sy'n angenrheidiol yn eich barn chi.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno bod y mesurau diogelwch arfaethedig yn darparu fframwaith priodol a chymesur ar gyfer sicrhau bod plant yn cael eu goruchwylio a'u hamddiffyn pan fydd cymeradwyaethau gofalwyr maeth yn trosglwyddo rhwng sefydliadau. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr o'r farn bod y mesurau diogelwch yn taro cydbwysedd priodol rhwng cynnal parhad i blant a gofalwyr maeth wrth sicrhau bod yr amddiffyniadau rheoleiddiol a diogelu angenrheidiol yn parhau i fod ar waith.

Mynegodd llawer o ymatebwyr gefnogaeth i fesurau diogelwch sy'n ymwneud ag atal cymeradwyaethau deuol, y gofyniad bod gwiriadau ac adolygiadau statudol yn parhau i fod yn gyfredol, parhad trefniadau cymorth a goruchwylio a chynnal yr oruchwyliaeth reoleiddiol bresennol. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn cytuno y byddai'r mesurau hyn yn helpu i gynnal gofynion diogelu heb ddyblygu prosesau cymeradwyo presennol yn ddiangen.

Thema gyffredin oedd pwysigrwydd cynnal adolygiadau blynyddol cyfredol, gwiriadau DBS, cofnodion diogelu a chymorth goruchwyliol parhaus. Pwysleisiodd nifer o ymatebwyr y dylai'r mesurau diogelwch ganolbwyntio ar wirio cydymffurfed presennol yn hytrach na chyflwyno gofynion a fyddai, i bob pwrpas, yn efelychu proses ailasesu lawn.

Nododd sawl ymatebydd feysydd lle y gallai mesurau diogelwch neu eglurhad ychwanegol fod yn ddefnyddiol. Roedd awgrymiadau yn cynnwys trefniadau rhannu gwybodaeth cryfach rhwng sefydliadau, gofynion hysbysu clir ar gyfer awdurdodau lleoli, cyfathrebu â phlant a gofalwyr maeth, trefniadau atebolrwydd penodol yn ystod y cyfnod pontio a threfniadau gwell ar gyfer monitro sefydlogrwydd lleoliadau a diogelu ar ôl trosglwyddo. At hynny, pwysleisiodd rhai ymatebwyr bwysigrwydd sicrhau bod barn plant yn cael ei hystyried a bod gwasanaeth eiriolaeth a chymorth yn parhau i fod ar gael i blant drwy gydol y broses.

Roedd pwyslais cryf hefyd ar yr angen am ganllawiau i helpu i sicrhau bod y polisi yn cael ei roi ar waith yn gyson ledled Cymru. Pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd eglurder ynghylch y gofynion o ran tystiolaeth, trefniadau llywodraethu, prosesau adolygu a chyfrifoldebau am oruchwylio.

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr o'r farn bod y mesurau diogelwch arfaethedig yn ddigonol ond gwnaethant nodi cyfleoedd i gryfhau'r broses weithredu drwy ganllawiau, cyfathrebu ac eglurhad ychwanegol ynglŷn â phrosesau gweithredol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r gefnogaeth eang a fynegwyd i'r mesurau diogelwch arfaethedig ac yn nodi'r cytundeb cyffredinol bod y trefniadau yn darparu sail briodol ar gyfer cynnal goruchwyliaeth ac amddiffyn plant gan helpu i sicrhau parhad gofal ar yr un pryd.

Rydym yn cydnabod y pwys y mae ymatebwyr yn ei roi ar sicrhau bod trefniadau diogelu yn parhau i fod yn gadarn drwy gydol unrhyw broses drawsnewid sefydliadol. Nodwn hefyd yr adborth ynghylch rhannu gwybodaeth, cyfathrebu, atebolrwydd a phwysigrwydd sicrhau bod plant a gofalwyr maeth yn parhau i gael cymorth priodol drwy gydol y broses.

Tynnodd yr ymgynghoriad sylw at werth darparu canllawiau er mwyn helpu i sicrhau bod y polisi'n cael ei roi ar waith yn gyson. Byddwn yn ystyried yr adborth a gafwyd wrth i'r Rheoliadau gael eu cwblhau, gan gynnwys y materion a godwyd ynglŷn â'r gofynion o ran tystiolaeth, trefniadau goruchwylio a chyfrifoldebau gweithredol.

Cwestiwn 12 – A yw'r adolygiad gorfodol arfaethedig o gymeradwyaethau gofalwyr maeth a drosglwyddir o fewn 12 mis yn rhoi lefel briodol o sicrwydd? Rhowch resymau dros eich ymateb.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno y byddai adolygiad gorfodol o fewn 12 mis yn rhoi lefel briodol a chymesur o sicrwydd yn dilyn trosglwyddo cymeradwyaethau gofalwyr maeth. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr o'r farn bod yr amserlen arfaethedig yn taro cydbwysedd priodol rhwng cynnal goruchwyliaeth ac osgoi tarfu diangen ar gyfer plant, gofalwyr maeth a darparwyr.

Tynnodd llawer o ymatebwyr sylw at y ffaith bod gofalwyr maeth cymeradwy eisoes yn destun goruchwyliaeth barhaus, adolygiadau blynyddol, a goruchwyliaeth ddiogelu. Yn y cyd-destun hwn, roedd yr ymatebwyr o'r farn y byddai adolygiad o fewn 12 mis yn gyfle priodol i gadarnhau bod trefniadau cymorth yn parhau i fod yn effeithiol a bod y trosglwyddiad wedi gweithredu yn unol â'r bwriad, heb greu dyblygu diangen.

Thema a gododd dro ar ôl tro oedd pwysigrwydd cysoni unrhyw adolygiad â threfniadau adolygu blynyddol presennol lle bynnag y bo modd. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr o'r farn y byddai hyn yn ei gwneud yn bosibl i adolygiadau gael eu rheoli'n effeithlon, gan leihau beichiau gweinyddol i ddarparwyr, gofalwyr a phaneli maethu ar yr un pryd. Awgrymodd sawl ymatebydd hefyd y dylai adolygiadau cynharach barhau i fod yn bosibl pe bai pryderon diogelu neu newidiadau sylweddol mewn amgylchiadau yn codi.

Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at bwysigrwydd sicrhau bod yr adolygiad yn parhau i fod yn gymesur ac nad yw'n cael ei drin fel proses ailasesu lawn. Pwysleisiodd yr ymatebwyr hyn y dylai'r adolygiad anelu at roi sicrwydd ynghylch addasrwydd a threfniadau cymorth parhaus, yn hytrach na dyblygu gwaith asesu blaenorol pan na fu unrhyw newidiadau sylweddol.

Cododd nifer bach o ymatebwyr bryderon ynghylch yr amserlen arfaethedig, gan gynnwys a fyddai'n rhoi pwysau ychwanegol ar ddarparwyr neu a fyddai trefniadau gwahanol yn fwy priodol mewn rhai amgylchiadau. Fodd bynnag, roedd y safbwyntiau hyn yn cael eu gwrthbwyso gan gefnogaeth eang i'r dull gweithredu arfaethedig.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r gefnogaeth eang sydd wedi'i mynegi o blaid y cyfnod adolygu arfaethedig. Nodwn y cytundeb cyffredinol bod adolygiad o fewn 12 mis yn darparu mesur diogelwch priodol, gan gefnogi parhad a sefydlogrwydd i blant a gofalwyr maeth ar yr un pryd.

Rydym yn cydnabod y pwys y mae ymatebwyr yn ei roi ar sicrhau bod trefniadau adolygu yn parhau i fod yn gymesur a'u bod yn ategu prosesau maethu presennol.

Nodwn hefyd y safbwyntiau a fynegwyd ynghylch pwysigrwydd cysoni adolygiadau â chylchoedd adolygu presennol lle bo'n briodol a rhoi digon o hyblygrwydd i ymateb os bydd pryderon yn codi.

Byddwn yn ystyried yr adborth a gafwyd wrth gwblhau'r Rheoliadau, gan gynnwys sut y gellir rhoi'r broses adolygu ar waith mewn ffordd gyson ac effeithiol yn ymarferol.

Bydd yr adborth a gafwyd yn helpu i sicrhau bod y trefniadau adolygu yn roi sicrwydd priodol, gan gefnogi parhad gofal, cynnal safonau diogelu a lleihau beichiau gweinyddol diangen ar yr un pryd.

Cwestiwn 13 – A yw'r cyfnod adolygu arfaethedig o 12 mis yn rhoi digon o hyblygrwydd i ddarparwyr gwasanaethau maethu reoli cylchoedd adolygu yn effeithiol ac osgoi sefyllfa lle mae gormod o adolygiadau yn cronni ar un adeg?

Os nad yw'n gwneud hynny, pa ddulliau (neu derfynau amser) eraill y dylid eu hystyried?

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno bod y cyfnod adolygu arfaethedig o 12 mis yn rhoi digon o hyblygrwydd i ddarparwyr gwasanaethau maethu reoli cylchoedd adolygu yn effeithiol ac, ar yr un pryd, gynnal goruchwyliaeth briodol. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr o'r farn bod yr amserlen arfaethedig yn ymarferol, yn gymesur ac yn gyson â threfniadau adolygu maethu presennol.

Tynnodd llawer o ymatebwyr sylw at y ffaith y byddai'r cyfnod adolygu yn galluogi darparwyr i gysoni adolygiadau â chylchoedd adolygu blynyddol presennol a chynnal gweithgarwch ar draws cyfnod o 12 mis, gan helpu i osgoi sefyllfa lle mae adolygiadau yn cronni ar un adeg. Ystyriwyd bod hyn yn ffordd effeithiol o gydbwyso sicrwydd diogelu ag ymarferoldeb gweithredol.

Thema a gododd dro ar ôl tro oedd y dylid ymgorffori'r adolygiad mewn trefniadau adolygu blynyddol presennol lle bynnag y bo modd yn hytrach na chreu proses ailasesu ar wahân. Roedd yr ymatebwyr o'r farn y byddai hyn yn lleihau beichiau gweinyddol i ddarparwyr, paneli maethu a thimau gwaith cymdeithasol gan gynnal parhad i ofalwyr maeth a phlant ar yr un pryd.

Pwysleisiodd sawl ymatebydd bwysigrwydd cadw hyblygrwydd i gynnal adolygiadau cynharach os bydd pryderon yn codi, yn enwedig mewn perthynas â diogelu, newidiadau mewn amgylchiadau neu sefydlogrwydd lleoliadau. Awgrymodd rhai ymatebwyr hefyd y dylid ystyried mai uchafswm cyfnod amser yw'r cyfnod o 12 mis yn hytrach nag adeg adolygu benodedig.

Awgrymodd nifer bach o ymatebwyr ddulliau gweithredu amgen, gan gynnwys cyfnodau adolygu hwy neu drefniadau adolygu gwell, yn enwedig lle y gallai nifer mawr o ofalwyr fod yn destun adolygiad yn dilyn proses drawsnewid sefydliadol. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn bod yr amserlen arfaethedig yn briodol, ar yr amod bod digon o hyblygrwydd yn cael ei gadw yn y broses.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r gefnogaeth eang a fynegwyd i'r cyfnod adolygu arfaethedig o 12 mis ac yn nodi'r cytundeb cyffredinol ei fod yn sicrhau cydbwysedd priodol rhwng goruchwyliaeth a hyblygrwydd gweithredol.

Rydym yn cydnabod y pwys y mae ymatebwyr yn ei roi ar sicrhau bod trefniadau adolygu yn gymesur ac y gellir eu rheoli o fewn cylchoedd adolygu presennol lle

bynnag y bo modd. Nodwn hefyd y gwerth y mae ymatebwyr yn ei roi ar gadw hyblygrwydd i ymateb i bryderon diogelu neu faterion eraill os byddant yn codi cyn yr adeg y disgwylir i adolygiad gael ei gynnal.

Tynnodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad sylw at bwysigrwydd gweithredu'r broses adolygu mewn ffordd sy'n helpu i sicrhau parhad ac yn osgoi beichiau gweinyddol diangen. Byddwn yn ystyried yr adborth a gafwyd wrth gwblhau'r Rheoliadau, gan gynnwys sut mae adolygiadau yn cael eu hamserlennu a'u hintegreiddio mewn prosesau maethu presennol.

Bydd yr adborth a gafwyd yn helpu i sicrhau bod y trefniadau adolygu yn roi sicrwydd priodol, gan barhau i fod yn ymarferol a chymesur a chanolbwyntio ar ddiogelu llesiant a lles pennaf plant a phobl ifanc ar yr un pryd.

Cwestiwn 14 – Beth yw effeithiau tebygol y cynigion ar blant, gofalwyr maeth a'r gweithlu maethu ehangach, gan gynnwys unrhyw oblygiadau o ran sefydlogrwydd lleoliadau, diogelu, cydraddoldeb a llesiant gofalwyr? Nodwch unrhyw grwpiau y gallai'r cynnig effeithio'n anghymesur arnynt ac unrhyw gamau lliniaru y dylid eu hystyried.

Crynodeb o'r ymatebion

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr o'r farn y byddai'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol lle y byddent yn helpu i sicrhau parhad gofal a chyn lleied o darfu diangen â phosibl i blant a gofalwyr maeth yn ystod prosesau trawsnewid sefydliadol. Nododd llawer o ymatebwyr mai sefydlogrwydd lleoliadau, parhad cydberthnasau a llai o ansicrwydd i blant oedd prif fanteision y cynigion.

Tynnodd yr ymatebwyr sylw hefyd at fanteision posibl i ofalwyr maeth a'r gweithlu maethu ehangach. Roedd y rhain yn cynnwys llai o feichiau gweinyddol, mwy o hyder yn ystod newid sefydliadol, gwella cyfraddau cadw gofalwyr maeth profiadol a defnydd mwy effeithiol o adnoddau proffesiynol drwy osgoi ailasesiadau diangen a dyblygu gwaith. Roedd sawl ymatebydd o'r farn y byddai'r cynigion yn galluogi gweithwyr cymdeithasol a gwasanaethau maethu i ganolbwyntio adnoddau ar gefnogi plant a gofalwyr yn hytrach nag ailgynnal prosesau cymeradwyo presennol.

Thema a gododd dro ar ôl tro oedd y byddai llwyddiant y cynigion yn dibynnu ar brosesau gweithredu a chyfathrebu effeithiol. Tynnodd ymatebwyr sylw at bwysigrwydd rhoi gwybodaeth glir i blant, gofalwyr maeth a gweithwyr proffesiynol, cynnal parhad trefniadau cymorth a sicrhau nad yw newidiadau sefydliadol yn creu ansicrwydd na phryderon y gellir eu hosgoi i'r rhai yr effeithir arnynt.

Nododd llawer o ymatebwyr risgiau posibl hefyd os na chaiff y trefniadau eu rhoi ar waith yn effeithiol. Roedd y rhain yn cynnwys ansicrwydd i blant a gofalwyr maeth, anghysondeb wrth roi'r trefniadau ar waith, pwysau ar y gweithlu a'r effaith bosibl ar gapasiti maethu os bydd gofalwyr yn dewis gadael y sector. Tynnodd sawl ymatebydd sylw at bwysigrwydd cynnal trefniadau diogelu cadarn, mynediad at wasanaethau cymorth a goruchwyliaeth briodol yn ystod unrhyw gyfnod pontio.

Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at grwpiau y gallai unrhyw darfu gael effaith anghymesur arnynt, gan gynnwys plant ag anghenion cymhleth, plant anabl, grwpiau o frodyr a chwiorydd, plant sy'n siarad Cymraeg, plant sy'n gorfod newid lleoliadau sawl gwaith a'r rhai sydd angen cael cymorth neu leoliadau arbenigol. Pwysleisiodd yr ymatebwyr bwysigrwydd sicrhau parhad cymorth a sicrhau y gall grwpiau hyn barhau i ddefnyddio gwasanaethau.

Roedd camau lliniaru a awgrymwyd yn cynnwys cyfathrebu ac ymgysylltu clir, parhad cydberthnasau proffesiynol lle y bo'n bosibl, trefniadau rhannu gwybodaeth

cadarn, monitro sefydlogrwydd lleoliadau a chapasiti maethu yn barhaus a chymorth parhaus i recriwtio a chadw gofalwyr maeth.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y pwys y mae ymatebwyr yn ei roi ar gynnal sefydlogrwydd a pharhad i blant drwy gydol unrhyw broses drawsnewid sefydliadol. Nodwn hefyd bwysigrwydd sicrhau bod y broses weithredu yn adlewyrchu anghenion plant a phobl ifanc, yn enwedig y rhai a allai fod yn fwy agored i darfu.

Mae'r adborth a gafwyd wedi darparu gwybodaeth werthfawr am y materion ymarferol y bydd angen eu hystyried wrth roi'r trefniadau ar waith. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod trefniadau cyfathrebu a goruchwylio yn glir a'u bod yn helpu i sicrhau bod y polisi yn cael ei roi ar waith yn gyson ledled Cymru.

Byddwn yn ystyried yr ymatebion wrth gwblhau'r Rheoliadau ac yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod y polisi yn cael ei roi ar waith yn effeithiol a monitro effaith y newidiadau ar ôl iddynt ddod i rym.

Cwestiwn 15 – Pa effaith y byddai'r cynnig ynglŷn â thybio bod cymeradwyaethau gofalwyr maeth yn trosglwyddo yn ei chael yn ymarferol ar ddarparwyr gwasanaethau maethu, gofalwyr maeth, rheoleiddwyr ac awdurdodau lleol, yn eich barn chi? Gallai hyn gynnwys effeithiau ar gostau, llwythi gwaith, y defnydd o amser staff neu brosesau sy'n bodoli eisoes, yn ogystal ag unrhyw arbedion neu arbedion effeithlonrwydd rydych chi'n disgwyl i'r cynnig eu sicrhau.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn rhagweld y byddai'r trefniadau arfaethedig yn dod â manteision gweinyddol a gweithredol sylweddol i ddarparwyr gwasanaethau maethu, gofalwyr maeth, awdurdodau lleol a rheoleiddwyr. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr o'r farn y byddai osgoi'r angen i gynnal ailasesiad llawn o ofalwyr maeth presennol yn lleihau dyblygu a biwrocratiaeth ac yn golygu bod modd cyfeirio adnoddau at gefnogi plant a theuluoedd maethu.

Tynnodd llawer o ymatebwyr sylw at arbedion effeithlonrwydd a allai gael eu sicrhau drwy leihau gweithgarwch asesu, prosesau panel, tasgau gweinyddol a chostau cysylltiedig. Awgrymodd ymatebwyr y gallai gwaith cymdeithasol a chapasiti gwasanaethau maethu ganolbwyntio yn lle hynny ar weithgareddau diogelu, cefnogi gofalwyr maeth, cadw a recriwtio. Pwysleisiodd sawl ymateb hefyd yr arbedion ariannol posibl sy'n gysylltiedig ag osgoi ymarferion ailasesu ar raddfa fawr pan na fu unrhyw newid sylweddol mewn amgylchiadau.

Nododd ymatebwyr amrywiaeth o fanteision ymarferol i ofalwyr maeth, gan gynnwys llai o feichiau gweinyddol, mwy o sicrwydd a pharhad ac osgoi prosesau ailasesu diangen. Roedd llawer o'r farn y gallai'r manteision hyn gyfrannu at gynyddu cyfraddau cadw gofalwyr maeth a helpu i sicrhau bod cyn lleied o darfu â phosibl ar leoliadau presennol.

Ar gyfer awdurdodau lleol a rheoleiddwyr, roedd yr ymatebwyr yn rhagweld gostyngiad yn y llwyth gwaith sy'n gysylltiedig â phrosesau cymeradwyo, paneli maethu ac ansefydlogrwydd lleoliadau. Roedd sawl ymatebydd o'r farn y byddai cynnal y capasiti maethu presennol a lleihau achosion o darfu ar leoliadau yn cefnogi digonolrwydd lleoliadau yn ehangach ac yn lleihau pwysau ar drefniadau comisiynu.

Er bod yr ymatebion yn gadarnhaol ar y cyfan, nododd rhai ymatebwyr y byddai rhoi'r cynnig ar waith yn dal i olygu bod angen cynllunio, goruchwylio a gweithgarwch gweinyddol, gan gynnwys asesu parhad sefydliadol, rhannu gwybodaeth a threfniadau monitro parhaus. Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at bwysigrwydd canllawiau clir a chymorth er mwyn sicrhau bod manteision y cynigion yn cael eu gwireddu'n llawn yn ymarferol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r adborth a gafwyd ac yn nodi'r consensws eang y gallai'r cynigion leihau beichiau gweinyddol diangen ac, ar yr un pryd, gefnogi parhad a sefydlogrwydd i blant a gofalwyr maeth.

Rydym yn cydnabod y pwys y mae ymatebwyr yn ei roi ar sicrhau bod amser ac adnoddau proffesiynol yn cael eu canolbwyntio ar weithgareddau sy'n cefnogi plant a theuluoedd yn uniongyrchol. Tynnodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad sylw hefyd at yr angen am drefniadau gweithredu clir a goruchwyliaeth effeithiol i gefnogi'r broses o weithredu'r darpariaethau yn ymarferol.

Bydd yr adborth a gafwyd yn llywio'r gwaith o ddatblygu'r Rheoliadau, gan gynnwys ystyried prosesau gweithredu, goruchwyliaeth reoleiddiol a threfniadau rhannu gwybodaeth. Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i gefnogi darpariaeth gyson a sicrhau bod y trefniadau yn gweithredu'n effeithiol ledled Cymru.

Cwestiwn 16 – Beth yw eich barn ar Adrannau 1 ac 8 o'r Asesiad Effaith Integredig ar gyfer y cynnig hwn? A oes unrhyw feysydd penodol lle mae angen rhagor o fanylion yn eich barn chi, neu faterion penodol a allai effeithio ar grŵp penodol?

Gallai hyn gynnwys effeithiau sy'n ymwneud â chydraddoldeb, hawliau a llesiant plant, ac anfantais economaidd-gymdeithasol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt).

Crynodeb o'r ymatebion

Ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn cefnogi amcanion y cynnig ac yn croesawu'r pwyslais sy'n cael ei roi ar barhad, sefydlogrwydd a sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl ar gyfer plant yn ystod y broses o drawsnewid i wasanaethau maethu nid-er-elw.

Thema gyffredin oedd pwysigrwydd hawliau plant, llesiant a sefydlogrwydd lleoliadau. Tynnodd ymatebwyr sylw at yr angen i'r asesiad gydnabod manteision cynnal cydberthnasau sefydlog ac osgoi tarfu diangen ar gyfer plant a phobl ifanc. Roedd sawl ymatebydd o'r farn y gallai'r cynigion gefnogi llesiant plant drwy ddiogelu lleoliadau a lleihau ansicrwydd yn ystod prosesau trawsnewid sefydliadol.

Galwodd llawer o ymatebwyr hefyd am roi ystyriaeth bellach i effeithiau ar y gweithlu, gan gynnwys capasiti maethu, cadw gofalwyr maeth, heriau o ran recriwtio ac argaeledd adnoddau ar gyfer gwaith cymdeithasol ac asesu. Tynnodd sawl ymateb sylw at bwysigrwydd deall goblygiadau ymarferol gweithredu'r cynnig i wasanaethau maethu ac awdurdodau lleol.

Nododd ymatebwyr nifer o grwpiau y gallai fod angen rhoi ystyriaeth arbennig iddynt, gan gynnwys plant ag anghenion cymhleth, plant anabl, plant sy'n siarad Cymraeg, plant y mae angen lleoliadau arbenigol arnynt, plant sy'n byw mewn cymunedau gwledig a'r rhai a all fod yn wynebu rhwystrau i gael cymorth priodol eisoes. Tynnodd rhai ymatebwyr sylw hefyd at bwysigrwydd ystyried effeithiau economaidd-gymdeithasol a chynnal mynediad at leoliadau lleol, addysg a chydberthnasau teuluol.

Awgrymodd nifer o ymatebion y gallai'r asesiad elwa ar fanylion ychwanegol ynghylch trefniadau monitro a sut y byddai'r trefniadau trosiannol yn gweithredu'n ymarferol. Galwodd ymatebwyr hefyd am roi mwy o ystyriaeth i hawliau plant, effeithiau ar gydraddoldeb a phrofiadau grwpiau y gallai'r diwygiadau gael effaith anghymesur arnynt. Tynnodd sawl ymatebydd sylw at bwysigrwydd sicrhau bod yr asesiad yn cydnabod manteision cynnal parhad a sefydlogrwydd i blant a'r angen i werthuso a monitro effeithiau ar blant, gofalwyr maeth a gwasanaethau maethu yn barhaus.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r adborth a gafwyd ar y crynodeb o'n Hasesiad Effaith Integredig, ac yn cydnabod y pwys y mae ymatebwyr yn ei roi ar sicrhau bod llesiant, hawliau a lles pennaf plant yn parhau i fod wrth wraidd y broses o roi'r cynnig ar waith.

Mae'r ymatebion yn darparu gwybodaeth werthfawr am feysydd lle mae rhanddeiliaid yn credu y gallai rhagor o waith dadansoddi neu eglurhad pellach fod yn fuddiol. Ystyrir y materion hyn fel rhan o'r broses barhaus o ddatblygu'r polisi a'r trefniadau gweithredu ategol.

Bydd amrywiaeth o asesiadau effaith statudol a pholisi-benodol yn parhau i gael eu cynnal a'u diweddaru, lle y bo'n briodol, fel rhan o'r broses datblygu polisi. Mae'r rhain yn cynnwys ystyried effeithiau ar hawliau a llesiant plant, cydraddoldeb, y Gymraeg ac anfantais economaidd-gymdeithasol. Bydd y dystiolaeth a'r adborth a gasglwyd drwy'r ymgynghoriad hwn yn helpu i lywio'r asesiadau hynny ac yn cefnogi gwaith cynllunio gweithredu.

Byddwn yn parhau i adolygu'r dystiolaeth ategol ac yn ystyried effaith y cynigion wrth i'r broses o roi'r cynnig ar waith fynd rhagddi, gan sicrhau bod y trefniadau terfynol yn parhau i gefnogi canlyniadau cadarnhaol i blant, gofalwyr maeth a gwasanaethau maethu.

Cwestiwn 17 – Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol y rheoliadau arfaethedig ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Yn eich barn chi, a oes cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol? Yn eich barn chi, a oes cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol?

Crynodeb o'r ymatebion

Nid oedd yr ymatebion yn dangos consensws clir y byddai'r cynigion yn cael effaith uniongyrchol ar y Gymraeg. Roedd rhai o'r farn bod yr effaith yn debygol o fod yn niwtral neu'n gyfyngedig, ond roedd eraill ar y llaw arall o'r farn y gallai'r cynigion leihau'r capasiti preswyl a maethu yng Nghymru a chynyddu'r defnydd o leoliadau y tu allan i Gymru, a allai effeithio ar fynediad plant at wasanaethau, addysg, diwylliant a chysylltiadau cymunedol Cymraeg.

Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at bwysigrwydd cadw digon o ofalwyr a staff sy'n siarad Cymraeg a gwasanaethau Cymraeg a mynegwyd pryder y gallai unrhyw leihad yng nghapasiti darparwyr effeithio ar allu plant i dderbyn gofal drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ar y llawr arall, roedd rhai ymatebwyr o'r farn y gallai'r Rheoliadau gefnogi'r Gymraeg lle mae'r broses drawsnewid yn atgyfnerthu'r ddarpariaeth leol ac yn galluogi plant i aros mewn cysylltiad â chymunedau Cymraeg.

Roedd y mesurau diogelwch a lliniaru a awgrymwyd yn cynnwys ymgorffori anghenion ieithyddol mewn cynlluniau digonolrwydd lleol a chenedlaethol, monitro capasiti lleoliadau Cymraeg a lleoliadau y tu allan i Gymru a chefnogi'r gwaith o recriwtio a chadw staff preswyl a gofalwyr maeth sy'n siarad Cymraeg. Roeddent hefyd yn cynnwys diogelu parhad ar gyfer lleoliadau maeth presennol lle y siaredir Cymraeg, osgoi gwaith ailasesu neu rwystrau gweinyddol diangen wrth drosglwyddo gofalwyr maeth a sicrhau bod cysylltiadau ieithyddol, diwylliannol a chymunedol yn cael eu hystyried mewn penderfyniadau lleoli a throsglwyddo.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn croesawu barn ymatebwyr ar effeithiau posibl y cynigion ar y Gymraeg. Mae'r effeithiau hyn wedi'u hystyried drwy gydol y broses o ddatblygu'r Asesiad Effaith Integredig.

Mae a wnelo llawer o'r ymatebion â'r broses ehangacjh o roi'r trefniadau dileu elw o dan Ddeddf 2025 ar waith, yn hytrach na'r cynigion penodol. Bydd y fframwaith cynllunio digonolrwydd newydd ar gyfer awdurdodau lleol a'r trefniadau ehangach i roi Deddf 2025 ar waith yn cefnogi'r gwaith parhaus o asesu anghenion a chapasiti gwasanaethau yn y dyfodol, gan gynnwys anghenion o ran y Gymraeg, ochr yn ochr â chynllunio'r gweithlu a lleoliadau.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau y gall plant gael gofal a chymorth yn eu dewis iaith a pharhau i fod yn gysylltiedig â'u cymunedau. Nid yw'r Rheoliadau arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i leoliadau presennol ddod i ben ac maent yn

rhan o broses drawsnewid fesul cam y bwriedir iddi sicrhau bod cyn lleied o darfu â phosibl.

Gallai'r trefniadau parhad arfaethedig hefyd helpu i gynnal lleoliadau maeth presennol lle y siaredir Cymraeg drwy ganiatáu i gymeradwyaethau gofalwyr maeth barhau, o dan amgylchiadau diffiniedig, pan fydd darparwr yn trawsnewid o fodel er-elw i fodel nid-er-elw. Bydd hyn yn helpu i osgoi unrhyw waith ailasesu diangen ac yn lleihau'r risg o darfu ar leoliadau presennol, gan gynnwys lle mae parhad gofal a chymorth Cymraeg yn bwysig i blentyn..

Rydym hefyd yn cydnabod yr angen am gyfathrebu a chanllawiau clir yn Saesneg ac yn Gymraeg ynghylch sut y bydd y cyfyngiadau arfaethedig yn gweithio'n ymarferol. Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid, drwy'r Bwrdd Gweithredu Plant Nid-er-Elw a ffrydiau gwaith ategol, er mwyn sicrhau y caiff negeseuon cyson eu cyfleu i ddarparwyr.

Cwestiwn 18 – Yn eich barn chi, a allai'r cynigion gael eu llunio neu eu newid er mwyn:

· cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
· lliniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Crynodeb o'r ymatebion

Fel gyda'r cwestiwn blaenorol, ni nododd yr ymatebwyr angen clir am newidiadau sylweddol i'r cynigion mewn perthynas â'r Gymraeg. Fodd bynnag, tynnodd llawer sylw at gyfleoedd i gryfhau ystyriaethau o ran y Gymraeg yn ystod y cam gweithredu.

Pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd cadw staff a gofalwyr maeth sy'n siarad Cymraeg a lleoliadau lle y siaredir Cymraeg a sicrhau bod y Cynnig Gweithredol yn parhau i gael ei ddarparu. Codwyd pryderon y gallai llai o leoliadau arwain at leoli plant ymhellach i ffwrdd o'u cartref, gan gynnwys y tu allan i Gymru, a fyddai'n cyfyngu ar fynediad at wasanaethau a chymorth Cymraeg.

O ran maethu, pwysleisiodd yr ymatebwyr fod angen cadw gofalwyr maeth sy'n siarad Cymraeg a chynyddu eu nifer. Gwnaethant awgrymu y dylai trefniadau trosglwyddo leihau hyd yr eithaf ar unrhyw waith ailasesu, oedi a tharfu diangen a chynnig mesurau megis prosesau a dogfennaeth ddwyieithog, cymorth Cymraeg yn ystod cyfnodau pontio, ystyried iaith yn barhaus wrth baru lleoliadau a mentrau recriwtio, cadw a hyfforddi wedi'u targedu.

Tynnodd ymatebwyr sylw hefyd at yr angen i ymgorffori ystyriaethau o ran y Gymraeg mewn cynlluniau digonolrwydd lleol a chenedlaethol, trefniadau trosiannol a threfniadau ar gyfer monitro gofalwyr, lleoliadau a gwasanaethau Cymraeg yn barhaus. Rhoddwyd pwys arbennig ar ddiogelu lleoliadau a threfniadau gofal presennol drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod prosesau trawsnewid darparwyr.

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr o'r farn y dylid adlewyrchu ystyriaethau o ran y Gymraeg yn fwy penodol yn y polisi dileu elw ehangach er mwyn sicrhau bod plant sy'n siarad Cymraeg yn parhau i gael gofal a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg, gan sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Cynigiodd rhai hefyd y dylai fod mwy o hyblygrwydd rheoleiddiol lle y byddai ei angen i ddiwallu anghenion o ran y Gymraeg neu osgoi lleoliadau y tu allan i Gymru.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nodwn yr awgrymiadau adeiladol gan ymatebwyr ynghylch sut y gallai'r cynigion gefnogi darpariaeth Gymraeg ymhellach.

Rydym yn cytuno y bydd cynnal gallu yn y Gymraeg yn bwysig i drawsnewid yn llwyddiannus i fodel gofal nid-er-elw. Nodwn hefyd na fydd y cyfyngiadau arfaethedig yn newid dyletswyddau presennol sy'n ymwneud â'r Gymraeg na'r Cynnig Gweithredol. Oherwydd natur weinyddol y cyfyngiadau, rydym o'r farn na fyddent yn cael fawr ddim effaith uniongyrchol ar y Gymraeg ac mai prin yw'r cyfleoedd i'w

diwygio mewn ffordd a fyddai'n cael effaith sylweddol ar ganlyniadau o ran y Gymraeg.

Mewn perthynas â maethu, bwriedir i'r trefniadau trosiannol arfaethedig helpu i sicrhau parhad drwy ganiatáu i gymeradwyaethau gofalwyr maeth presennol barhau, o dan amgylchiadau diffiniedig, pan fydd darparwr yn trawsnewid o fodel er-elw i fodel nid-er-elw. Drwy osgoi gwaith ailasesu diangen, gallai'r trefniadau helpu i gadw gofalwyr maeth presennol, gan gynnwys gofalwyr maeth sy'n siarad Cymraeg, a chynnal trefniadau gofal a chymorth Cymraeg sefydledig.

Fel gyda'n hymateb i'r cwestiwn blaenorol, mae llawer o'r materion a godwyd gan ymatebwyr yn ymwneud â threfniadau cynllunio digonolrwydd awdurdodau lleol. Bydd y trefniadau hyn yn helpu i sicrhau bod darpariaeth yn cael ei datblygu mewn ymateb i anghenion a nodwyd ac yn cefnogi canlyniadau ieithyddol a chanlyniadau llesiant plant. Byddwn yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid yn y sector er mwyn sicrhau bod ystyriaethau o ran y Gymraeg yn cael eu hymgorffori'n briodol mewn prosesau cynllunio digonolrwydd a gweithredu.

Cwestiwn 19 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech godi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym ni wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y lle isod i'w nodi?

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd yr ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau ar y cwestiwn hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar y broses ehangach o roi Deddf 2025 ar waith ac ystyriaethau polisi ehangach, yn hytrach na chynnig newidiadau pellach i'r rheoliadau.

Ailddatganodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch capasiti lleoliadau, gan gynnwys argaeledd darpariaeth arbenigol a darpariaeth Gymraeg, yn ogystal â'r posibilrwydd y byddai darparwyr yn gadael y sector pe bai sefydliadau o'r farn bod parhau i weithredu yng Nghymru yn annichonadwy. Mae'r materion hyn wedi'u crynhoi o dan gwestiynau cynharach ac nid ydynt yn cael eu hailadrodd yn fanwl yma.

Roedd eraill yn croesawu'r cyfeiriad teithio cyffredinol a bennwyd gan Ddeddf 2025 ond gwnaethant bwysleisio bod cryn dipyn o waith i'w wneud o hyd er mwyn gwireddu bwriad y polisi o ddileu elw o ofal plant. Roedd themâu allweddol yn cynnwys yr angen am ddigon o fuddsoddiad a chymorth pontio, ochr yn ochr â threfniadau cadarn ar gyfer goruchwylio a monitro'r broses o roi'r cyfyngiadau ar waith. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai'r mesurau hyn fod ar waith cyn i'r cyfyngiadau ddod i rym.

Ar gyfer y ddau gyfyngiad, galwodd yr ymatebwyr am ganllawiau gweithredol cynnar, cyfathrebu clir â phlant, gofalwyr maeth, darparwyr a chomisiynwyr, ac am fonitro digonolrwydd lleoliadau, darparwyr sy'n gadael y sector, recriwtio a chadw'r gweithlu, sefydlogrwydd lleoliadau, costau a phrofiadau plant yn barhaus. Ystyriwyd hefyd fod ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid a gweithgarwch ymgysylltu amlasianaethol parhaus yn bwysig i nodi a lliniaru risgiau sy'n dod i'r amlwg.

Ar y cyfan, tynnodd ymatebion sylw at bwysigrwydd digon o gapasiti lleoli, trefniadau trosiannol clir a gwaith monitro effeithiol, gyda sefydlogrwydd lleoliadau a chanlyniadau cadarnhaol i blant yn parhau i fod yn ganolog drwy gydol y cam gweithredu.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Hoffem ddiolch i'r ymatebwyr am eu sylwadau ychwanegol a'u myfyrdodau ehangach ar roi Deddf 2025 ar waith a thrawsnewid i fodel gofal nid-er-elw.

Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch digonolrwydd lleoliadau, cynaliadwyedd darparwyr, pwysau ar y gweithlu ac argaeledd darpariaeth leol sy'n diwallu anghenion plant. Mae'r cyfyngiadau arfaethedig yn rhan o ddull gweithredu fesul cam ac ymdrinnir â'r materion ehangach hyn drwy'r rhaglen waith ehangach sy'n cefnogi'r broses o roi Deddf 2025 ar waith, gan gynnwys trefniadau ar gyfer cynllunio digonolrwydd, cymorth pontio, goruchwylio a monitro.

Rydym yn cytuno, er mwyn rhoi'r Ddeddf ar waith yn effeithiol, y bydd angen cyfathrebu clir, canllawiau gweithredol manwl ac ymgysylltu parhaus ag awdurdodau lleol, darparwyr, gofalwyr maeth a phartneriaid eraill. Bydd y materion hyn yn parhau

i gael eu datblygu drwy'r rhaglen weithredu genedlaethol, gan gynnwys gwaith y Bwrdd Gweithredu a'i ffrydiau gwaith ategol.

Rydym yn parhau'n ymrwymedig i gydweithio â phartneriaid er mwyn sicrhau bod y trefniadau newydd yn cael eu rhoi ar waith mewn ffordd gymesur a thryloyw, gyda sefydlogrwydd lleoliadau, digonolrwydd a chanlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc yn parhau i fod yn ganolog drwy gydol y cyfnod pontio.

Y camau nesaf

Rydym wedi ystyried yr ymatebion fel rhan o'n gwaith ehangach i ddatblygu'r Rheoliadau arfaethedig a'u hasesiadau effaith cysylltiedig.

Caiff Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau Plant o dan Gyfyngiad) (Cyfyngiadau Trosiannol) (Cymru) 2026 a Rheoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) (Diwygio) 2026 yn cael eu gosod gerbron y Senedd ym mis Tachwedd 2026.

Yn amodol ar gymeradwyaeth Senedd Cymru, daw Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau Plant o dan Gyfyngiad) (Cyfyngiadau Trosiannol) (Cymru) 2026 i rym ar 1 Ebrill 2027.

Yn amodol ar gwblhau proses annilysu'r Senedd, daw Rheoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) (Diwygio) 2026 i rym ar 21 Rhagfyr 2026.

Bydd pob un o'r dogfennau drafft ar gael ar wefan y Senedd: Is-ddeddfwriaeth (senedd.cymru).

O dan Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau Plant o dan Gyfyngiad) (Cyfyngiadau Trosiannol) (Cymru) 2026, o 1 Ebrill 2027 ymlaen, byddai'r cyfyngiadau canlynol ar ddarparwyr er-elw presennol cartrefi plant a gwasanaethau maethu yn cael eu cyflwyno:

- Ni chaiff cartrefi plant er-elw sy'n bodoli eisoes ychwanegu gwelyau.
- Ni chaiff darparwyr gwasanaethau maethu er-elw gymeradwyo unrhyw ofalwyr maeth newydd.

O dan Reoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) (Diwygio) 2026:

- caiff cymeradwyaethau gofalwyr maeth presennol drosglwyddo pan fydd darparwr gwasanaeth maethu er-elw yn ailsefydlu fel gwasanaeth maethu nid-er-elw, yn ddarostyngedig i amodau penodedig, heb ei gwneud yn ofynnol i ofalwyr maeth fynd trwy broses gymeradwyo newydd o ganlyniad i'r newid hwnnw yn unig..

Fel rhan o'r broses o roi Deddf 2025 ar waith, o 1 Ebrill 2030, y bwriad yw mai dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y bydd plant yn cael eu lleoli gyda darparwyr er-elw, a hynny'n amodol ar gymeradwyaeth y Gweinidog.

Caiff effaith y rheoliadau ei monitro'n agos. Mae swyddogion yn ymgysylltu'n rheolaidd â phartneriaid ym mhob rhan o'r sector er mwyn cael gwybodaeth am y farchnad, gan gynnwys ymgysylltu'n rheolaidd ag AGC a thrwy'r corff cenedlaethol o waith a wneir drwy'r Bwrdd Gweithredu, ochr yn ochr â phrosesau adrodd ehangach i sicrhau tegwch ac effeithiolrwydd. Yn fwy cyffredinol, disgwylir i'r polisi dileu elw cyffredinol fod yn destun gwerthusiad ffurfiol dros y blynyddoedd nesaf.

Bydd unrhyw drefniadau pellach sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau arfaethedig hyn yn destun penderfyniadau polisi ac ymgynghori pellach.

Atodiad A: Rhestr o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad

Rhestr o'r ymatebwyr a lenwodd y ffurflen ac a oedd yn barod i rannu eu manylion:

1. Stepping Stones Care Services
2. Amberleigh Care Trustee Limited
3. TACT Fostering
4. Landsker Child Care
5. Woodlands Limited
6. Barnado's
7. Landsker Child Care Ltd
8. Codi Gofal a Chymorth – Grŵp Codi
9. Cyngor Sir Ceredigion
10. Cyngor Caerdydd
11. Cymdeithas Genedlaethol Darparwyr Maethu (NAFP)
12. Family Fostering Partners
13. Cymdeithas Cartrefi Plant
14. Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
15. UNSAIN Cymru
16. Gweithredu dros Blant
17. Plant yng Nghymru
18. Shaw Trust
19. Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Consortiwm Comisiynu Plant Cymru, Maethu Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)
20. Llais
21. Comisiynydd Plant Cymru

Ni roddodd 27 o ymatebwyr ganiatâd i rannu eu manylion.